

## **Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint**

**Adolygiad o Gynnydd  
yn erbyn Safonau Gofal  
Iechyd Cymru  
1 Ebrill 2006 - 31 Mawrth  
2007**

**Hydref 2007**



## Cynnwys

	<b>Rhif y Dudalen</b>
<b>1. Cyflwyniad a Chyd-destun .....</b>	<b>1</b>
<b>2. Proses Asesu 2006-07 .....</b>	<b>5</b>
<b>3. Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint .....</b>	<b>9</b>
<b>4. Canfyddiadau</b>	
▪ Profiad y claf.....	<b>11</b>
▪ Canlyniadau Clinigol.....	<b>27</b>
▪ Llywodraethu Gofal Iechyd .....	<b>31</b>
▪ Iechyd y Cyhoedd.....	<b>49</b>
<b>5. Y Camau Nesaf.....</b>	<b>55</b>
 <b>Atodiadau</b>	
Atodiad 1: Diffiniadau Lefel Aeddfedrwydd .....	<b>57</b>
Atodiad 2: Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon.....	<b>59</b>
Atodiad 3: Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr .....	<b>67</b>
Atodiad 4: Rhestr Termau.....	<b>69</b>



# 1. Cyflwyniad a Chyd-destun

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r canfyddiadau o'r gwaith a wnaed gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu hunanasesiad Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint 2006-2007 o berfformiad yn erbyn *Safonau Gofal Iechyd Cymru*.

## Y Safonau

1.2. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ym mis Mai 2005 a daethant i rym ar 1 Mehefin 2005. Maent yn nodi fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd i gefnogi'r GIG a chyrrff partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol o safon ar draws pob lleoliad gofal iechyd.

1.3. Yn anad dim, cynlluniwyd y Safonau Gofal Iechyd i gyflawni'r lefelau gwell o ofal a thriniaeth y mae gan bobl Cymru yr hawl i'w disgwyl yn rhesymol ac felly darparant sylfaen y gall cyrrff gofal iechyd adeiladu arni a chyflawni'r disgwyliadau newydd a mwy heriol ar gyfer gofal cleifion a nodir yn strategaeth 10 mlynedd Llywodraeth Cynulliad Cymru, '*Cynllun Oes*'. Mae'n ofynnol i bob corff gofal iechyd<sup>1</sup> yng Nghymru ystyried y safonau wrth ddarparu gofal iechyd ac wrth gomisiynu gwasanaethau gofal iechyd, waeth beth fo'r lleoliad.

1.4. Mae *Safonau Gofal Iechyd Cymru* yn nodi 32 safon o dan bedwar maes. Mae pob un o'r meysydd yn deillio o werthoedd craidd a ddylai ategu'r gwaith o gomisiynu a darparu gwasanaethau gofal iechyd, ac mae pob safon o fewn maes yn disgrifio'r gwerthoedd a gynrychiolir gan y maes.

- Mae'r maes cyntaf '*Profiad y Claf*' yn nodi:

*Bydd y safonau i gefnogi'r broses o ddarparu gofal iechyd mewn partneriaeth â'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd yn seiliedig ar gynlluniau a phenderfyniadau sy'n parchu anghenion a dymuniadau amrywiol. Bydd y gwasanaethau'n*

---

<sup>1</sup> Diffinnir corff gofal iechyd fel cyrrff y GIG yng Nghymru, contractwyr annibynnol a chyrrff ac unigolion eraill yn cynnwys y sectorau annibynnol a gwirfoddol, sy'n darparu neu'n comisiynu gofal iechyd i gleifion unigol, defnyddwyr y gwasanaeth a'r cyhoedd.

*hawdd eu defnyddio ac yn canolbwyntio ar y claf. Bydd gofal iechyd yn cael ei ddarparu mewn lleoliadau sy'n hybu lles y cleifion a'r staff ac sy'n parchu anghenion a dymuniadau'r cleifion. Byddant wedi'u llunio i ddarparu triniaeth a gofal yn effeithiol a diogel ac yn cael eu cynnal a'u cadw, a'u glanhau'n dda er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau posibl o ran iechyd y cleifion.*

- Mae'r ail faes 'Canlyniadau Clinigol' yn cadarnhau:

*Bydd y penderfyniadau a'r gwasanaethau gofal iechyd yn seiliedig ar dystiolaeth gwaith ymchwil a gaiff ei asesu'n briodol ac yn sicrhau canlyniad effeithiol ar gyfer cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth gan ystyried eu hanghenion a'u dymuniadau personol. Bydd cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn derbyn gwasanaethau mor gyflym â phosibl, ac ni fydd oedi afresymol yn digwydd ar unrhyw adeg yn ystod y broses ddarparu na'u llwybr gofal..*

- Mae'r trydydd maes 'Llywodraethu Gofal Iechyd' yn egluro:

*Bydd gan ddarparwyr a chomisiynwyr gofal iechyd systemau yn eu lle sy'n cefnogi arweiniad ac atebolrwydd staff clinigol a rheolwyr ac sy'n canolbwyntio ar anghenion a dymuniadau cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth. Bydd arferion gwaith yn eu lle i sicrhau bod uniondeb, sicrwydd ansawdd, dulliau gwella ansawdd a diogelwch y cleifion yn rhan annatod o'r holl arferion, prosesau a digwyddiadau.*

- Mae'r pedwerydd maes 'Iechyd y Cyhoedd' yn nodi:

*Bydd cyrff gofal iechyd yn cydweithredu â chyrff perthnasol eraill a chymunedau lleol i sicrhau bod y rhaglenni a'r gwasanaethau'n cael eu llunio a'u darparu i hyrwyddo, amddiffyn a gwella iechyd, a mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd a helpu pobl i fyw bywydau iach ac annibynnol.*

## **Sicrhau Cydymffurfiaeth**

1.5. O fis Ebrill 2007, roedd yn ofynnol i gyrff gofal iechyd y GIG yng Nghymru gynnal hunanasesiadau yn erbyn y safonau gofal iechyd ac i wneud datganiad cyhoeddus blynyddol o'u perfformiad.

1.6. Mae'n ofynnol i gyrff gyflwyno eu datganiad a'u ffurflenni hunanasesu yn ffurfiol i Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru sy'n gyfrifol am arwain y blaen wrth

gydlynu'r gwaith o brofi a dilysu ffurflenni, gan ddefnyddio dadansoddiad ar sail risg, yn erbyn ystod o ffynonellau data. Nodir y broses a fabwysiadwyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru i brofi a dilysu cyflwyniadau 2006-2007 yn yr adran ganlynol.

1.7. O fis Ebrill 2008, caiff cydymffurfiaeth yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ei defnyddio i lywio Datganiadau o Reolaeth Fewnol ac Adroddiadau Blynyddol cyrff.



## 2. Proses Asesu 2006-2007

### Yr Hunanasesiad

2.1. Mae 2006-2007 wedi bod yn flwyddyn ddatblygiadol lle y datblygwyd a phrofwyd proses newydd o asesiadau. Mae'r pwyslais wedi bod ar ddatblygu proses asesu sy'n rhoi cyfrifoldeb yn gadarn dros lynu wrth *Safonau Gofal Iechyd Cymru* ar Fyrddau'r cyrff gofal iechyd ac sy'n cefnogi'r agenda lywodraethu. Mae'r broses yn gam allweddol tuag at sicrhau y caiff cyrff gofal iechyd eu dal i gyfrif am safon y gwasanaethau a ddarparant a bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu hysbysu'n well o berfformiad eu darparwyr a'u comisiynwyr gofal iechyd ac yn bwysicach y safonau y dylent eu disgwyl.

2.2. Mewn ymgynghoriad â chyrff gofal iechyd a phartneriaid allweddol eraill mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi datblygu proses hunanasesu sy'n profi perfformiad yn erbyn y *Safonau Gofal Iechyd* ar dair lefel wahanol:

- *Corfforaethol* – pa mor dda y mae'r Byrddau yn gwneud eu gwaith mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaeth â'r Safonau?
- *Canlyniadau Gweithredol/Clinigol* - sut y sicheir cydymffurfiaeth â'r safonau ar lefel gwasanaeth/ward?
- *Profiad y Defnyddiwr*<sup>2</sup> - sut beth yw profiad y defnyddiwr ac a yw'n gwella?

2.3. Pennwyd meini prawf a chwestiynau asesu ar gyfer pob safon ac fe'u datblygwyd yn ddull asesu ar y we sy'n caniatáu i hunanasesiadau gael eu cwblhau ar-lein ac i dystiolaeth ddogfennol gael ei lanlwytho i ategu'r atebion a roddwyd yn erbyn pob cwestiwn. Ategir y cwestiynau gan ganllawiau sy'n darparu arweiniad defnyddiol ar ofynion pob un o'r 32 o safonau.

2.4. Bu'n ofynnol i gyrff asesu eu cynnydd wrth ddarparu'r lefel uchaf o berfformiad yn erbyn pob un o'r 32 o safonau gan ddefnyddio matrices aeddfedrwydd. Mae'r matrices aeddfedrwydd yn caniatáu i berfformiad gael ei asesu ar lefelau corfforaethol, gweithredol a phrofiad y defnyddiwr ar un o bum lefel aeddfedrwydd:

---

<sup>2</sup> Yng nghyd-destun yr asesiad Safonau Gofal Iechyd, defnyddir y term 'defnyddiwr' i ddynodi cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a staff.

- Ymwybodol
- Ymateb
- Datblygu
- Ymarfer
- Arwain

Darperir diffiniad o bob un o'r lefelau matrices hyn yn Atodiad 1.

2.5. Gan ei bod yn flwyddyn o ddatblygu, bu'n rhaid i gyrff y GIG gyflawni o fewn rhai amserlenni tynn ac roedd yn rhaid iddynt gyflwyno eu hunanasesiad wedi ei gwblhau i AGIC erbyn 30 Mehefin 2007, dri mis ar ôl i'r dull asesu gael ei ryddhau. Cyflawnodd BILI Sir y Fflint ei waith o fewn y terfyn amser a hoffem gydnabod holl waith, ymdrech ac ymrwymiad BILI Sir y Fflint i sicrhau bod y gwaith wedi ei gyflawni o fewn y terfyn amser.

### **Profi a Dilysu**

2.6. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi profi a dilysu'r cyflwyniad hunanasesu gan BILI Sir y Fflint, ac mae hyn wedi digwydd mewn sawl cam:

- *Cam 1* - Dilysu bwrdd gwaith yr hunanasesiad gan dîm o gyd-arolygwyr ac arolygwyr lleyg. Roedd y cam hwn yn golygu cadarnhau bod y cwestiynau yn ategu pob maen prawf wedi ei ateb yn briodol, gan brofi bod yr ateb wedi ei ategu gan dystiolaeth ddigonol a pherthnasol a gwerthuso a oedd yr ateb yn gweddu i'r sgôr aeddfedrwydd a ddyfarnwyd gan y corff.
- *Cam 2* – Cynhaliwyd cyfarfodydd cymedroli ym mis Awst i gymharu a chyferbynnu ymatebion a marciau aeddfedrwydd fesul corff a safon. Roedd y cam hwn o'r broses yn allweddol i sicrhau bod y sgoriau yn gyson ac wedi eu safoni.
- *Cam 3* – Ymweliadau safle â chyrrff i brofi agweddau pwysig ar brofiad y defnyddiwr.

## **Yr Ymweliad Safle**

2.7. Roedd yr ymweliad safle yn un cam o broses ddilysu a phrofi hunanasesiad BILI Sir y Fflint ac, fel y nodwyd uchod, canolbwyntiodd ar brofi agweddau allweddol ar brofiad y defnyddiwr. Cynhaliwyd yr ymweliad ar 10 Medi 2007 a hwyluswyd grwpiau ffocws cleifion a staff.

2.8. At hynny, cynhaliwyd hyfforddiant a gwiriadau arfarnu gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol i staff a oedd yn bresennol yn y grŵp ffocws staff ar ddiwrnod ein hymweliad. Mae rhaglen waith fanwl ar gyfer yr ymweliadau hyn ar wefan AGIC yn [www.hiw.org.uk](http://www.hiw.org.uk).

## **Uwchgynadleddau Gofal Iechyd**

2.9. Ym mis Awst, gwnaeth Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru gydlynw a hwyluso tri chyfarfod rhanbarthol, 'Uwchgynadleddau Gofal Iechyd', gan ddwyn ynghyd gyrrff adolygu ac archwilio er mwyn rhannu gwybodaeth a'i bwydo i broses cadarnhau asesiad y Safonau Gofal Iechyd. Mae'r Uwchgynadleddau hyn yn gam allweddol yn y gwaith o rannu gwybodaeth yn well ar draws cyrff adolygu a datblygu cynlluniau archwilio a sicrwydd ar y cyd.



### 3. Trosolwg o Fwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint

3.1 Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Lleol Sir y Fflint ar 1af Ebrill 2003, fel rhan o waith Llywodraeth Cynulliad Cymru o ad-drefnu'r GIG yng Nghymru. Mae'n gorff statudol, yn cynnwys cynrychiolwyr o ystod o gyrff a buddiannau cymunedol o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r BILI yn cynnwys cynrychiolwyr o'r Cyngor Bwrdeistref Sirol, cyrff gwirfoddol, grwpiau cymunedol ac aelodau lleyg.

3.2 Noda'r BILI mai ei genhadaeth yw cefnogi iechyd a lles ein cymuned a sicrhau gofal iechyd priodol ac effeithiol.

3.3 Amcanion corfforaethol BILI Sir y Fflint yw:

- *Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd* - sicrhau bod cleifion a'r cyhoedd yn cael eu cynnwys yn fwy yn y gwaith o gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau.
- *Gwasanaethau i Gleifion* - comisiynu a, lle y bo'n briodol, darparu'r safon uchaf o ofal clinigol effeithiol i gleifion mewn modd sy'n parchu urddas, preifatrwydd, unigolaeth ac anghenion lleol, o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Byddwn yn parhau i wella gwasanaethau i gleifion gan ganolbwyntio ar atal i'r un graddau ag y gwnawn ar driniaeth wrth i'r BILI symud tuag at wasanaeth sylfaenol mwy lleol, sy'n canolbwyntio ar y claf.
- *Gweithio mewn Partneriaeth* - arwain a datblygu ymhellach waith cydweithrediadol gyda phob partner i wneud gwahaniaeth i iechyd, gofal cymdeithasol a lles cleifion a'r cyhoedd a'u gwella.
- *Llywodraethu Clinigol* – datblygu trefniadau llywodraethu clinigol drwy adolygiad o berfformiad; archwilio'r gwaith o weithredu arfer ar sail tystiolaeth i hwyluso ac annog gwelliant parhaus yn ansawdd a chanlyniad gofal.
- *Llywodraeth Gorfforaethol* - cynnal y safonau uchaf posibl o uniondeb a sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol, rheolaethau, safonau sicrwydd a pholisïau a gweithdrefnau corfforaethol y BILI.
- *Cyfeiriad Strategol* - gweithio gyda phartneriaid lleol i sicrhau y caiff gwasanaethau eu gwella'n barhaus er mwyn diwallu anghenion lleol, blaenoriaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyflawni ein gweledigaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd lleol.

- Datblygu'r Gweithlu - gan weithio gyda phartneriaid byddwn yn cynllunio, yn datblygu ac yn cadw ein gweithlu i sicrhau bod gennym yr adnoddau a'r sgiliau i ddarparu gwasanaethau yn y dyfodol. Fel cyflogwr bydd y BILL yn trin staff ag urddas a pharch, gan werthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth a hyrwyddo diwylliant o ddysgu gydol oes.

## 4. Canfyddiadau - Yn cynnwys Meysydd lle cafwyd Gwelliant ac Arfer Da

### 4.1 Profiad y claf

#### **Safon 1**

*Ymgynghorir â'r cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd wrth lunio, cynllunio, darparu, adolygu a gwella'r gwasanaethau gofal iechyd ac wrth eu hintegreiddio â'r gwasanaethau gofal cymdeithasol.*

S1.1 Asesodd y BILL ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Profiad y Defnyddiwr ac yn **Datblygu** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S1.2 Roedd y BILL yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae rhai o'r camau hyn yn cynnwys:

- Strategaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd.
- Strategaeth Gyfathrebu.
- Gweithgor Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd; cyflwynir cofnodion y Pwyllgor hwn i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol a'r Bwrdd.
- Fforymau agored ddwywaith y flwyddyn gyda defnyddwyr y gwasanaeth i ganfod barn o ran effeithiolrwydd y gwasanaethau; fe'u cynhelir ar y cyd â'r Awdurdod Lleol a chyrff eraill y GIG.
- Cyfarfodydd blynyddol ffurfiol â'r Cyngor Iechyd Cymuned Lleol.
- Cynllun Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd Blynyddol cytûn.

S1.3 Un o amcanion Corfforaethol y BILL fel y cytunwyd arnynt gan y Bwrdd yw Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd. Cyflwynir holl gofnodion gweithgor Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd i'r Bwrdd, ac mae'r Adroddiad Corfforaethol misol i'r Bwrdd hefyd yn rhoi gwybodaeth am ddatblygiadau arfaethedig a rhai gwirioneddol. Mae'r BILL wedi cynnal ymarfer ymgynghori 15 wythnos i gael safbwyntiau trigolion Sir y Fflint mewn perthynas â'r adolygiad o ofal sylfaenol a chymunedol. Cyflwynwyd y canlyniadau '*Designed for Flint*' i'r Bwrdd. Mae'r BILL yn bwriadu adolygu ei Strategaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd a'i Strategaeth Gyfathrebu a'u cyfuno yn

un Strategaeth Ymgysylltu â'r Gymuned erbyn mis Mawrth 2008. Cytunwn ar asesiad y BILI o'i hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol.

S1.4 Mewn ymateb i'r cwestiynau am Ganlyniadau Gweithredol/Clinigol darparodd y BILI amrywiaeth o enghreifftiau o ddulliau sydd ar waith i sicrhau bod y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr yn cael y cyfle i roi adborth ar eu profiadau, gan gynnwys:

- Ymgynghori mewn partneriaeth â BILlau eraill yng Ngogledd Cymru mewn perthynas ag adolygiad o wasanaethau aciwt.
- Nifer o grwpiau atgyfeirio at draws ystod o gyflyrau clefydau cronig.
- Sefydlu Grŵp cymorth a gwirfoddol diabetes Sir y Fflint.
- Cymorth Practisau Cyffredinol wrth weinyddu arolygon boddhad cleifion blynyddol.
- Cynhelir arolygon boddhad cleifion ddwywaith y flwyddyn i asesu effeithiolrwydd y Gwasanaeth y Tu Allan i Oriau Sir y Fflint.

S1.5 Mae BILI Sir y Fflint ynghyd â BILI Wrecsam ac Ymddiriedolaeth Gogledd-ddwyrain Cymru wedi datblygu llyfryn Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd '*Involving Patients and the Public: a practical guide*' i gefnogi staff a chydweithwyr y BILI mewn Gofal Sylfaenol i gynnwys cleifion a'r cyhoedd. Fodd bynnag, nid oedd yr ymateb a ddarparwyd mewn perthynas â staff yn dylanwadu ar y broses o gasglu safbwyntiau yn ddigon manwl, gan ddarparu rhestr o fentrau amrywiol a grwpiau y mae'r staff yn gysylltiedig â hwy yn hytrach na sut y maent yn dylanwadu ar ddull y BILI o gasglu safbwyntiau. Nid oedd tystiolaeth o werthuso a meincnodi wedi ei chynnwys yn yr ymatebion i unrhyw un o'r cwestiynau lefel weithredol, ac felly cadarnhawn fod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S1.6 Fel rhan o'i Gynllun Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd Blynyddol mae'r BILI yn cytuno ar ystod o fethodolegau i'w defnyddio i fesur boddhad cleifion. Roedd prosiectau enghreifftiol sydd â dulliau adborth ar waith yn cynnwys:

- Y rhaglen diabetes arbenigol, a werthusir drwy holiadur boddhad a grymuso cleifion.

- Mae cleifion â phroblemau iechyd meddwl sydd wedi cael gwasanaeth 'Ymyrryd mewn Argyfwng' yn cael holiadur ar ddiwedd pob cyfnod o ofal.
- Gwerthuso sesiynau hyfforddiant a gwybodaeth i gleifion a ddarperir gan y Tîm Prosiect Imiwneiddio.

S1.7 Cyfeiriodd y BILL at y ffaith bod Arolwg Boddhad Cleifion Holiadur Asesu Practis Cyffredinol yn holi am anabledd ac ethnigrwydd ond nad oedd yn dangos sut y mae'n monitro boddhad cleifion ar draws pob maes cydraddoldeb ar gyfer yr holl wasanaethau a gomisiynir; gwasanaethau gofal sylfaenol ac eilaidd. At hynny, nid atebodd y cwestiwn mewn perthynas â gwerthuso prosesau adborth. Fodd bynnag, roedd y BILL yn gallu rhoi enghreifftiau o newidiadau a wnaed i wella gwasanaethau dros y 12-18 mis diwethaf ac felly rydym yn asesu bod y BILL yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

## **Safon 2**

*Bydd y gwaith o gynllunio a darparu gofal iechyd:*

- a. yn cyd-fynd â phrofiadau, safbwyntiau a dymuniadau'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth;*
- b. yn bodloni anghenion iechyd y boblogaeth a wasanaethir;*
- c. yn seiliedig ar dystiolaeth ac arferion gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- d. yn sicrhau bod pawb yn cael yr un mynediad at wasanaethau..*

S2.1 Asesodd y BILL ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a chredwn fod yr ymateb hunanasesu a'r dystiolaeth gysylltiedig yn ategu hyn. Mae rhai elfennau o'r ymateb lefel Gorfforaethol yn dangos cam tuag at Yn Ymarfer ond mae angen gwneud mwy i gyrraedd y lefel.

S2.2 Defnyddir Cynllun Gweithredu a Fframwaith Blynyddol gan y Bwrdd i nodi meysydd gwasanaeth y mae angen eu datblygu. Defnyddir data nifer yr achosion ynghyd â gwybodaeth meincnodi genedlaethol i sicrhau y caiff gwasanaethau eu llunio gyda'r adnoddau priodol. Mae nifer o strategaethau a chynlluniau ar waith ac yn ategu datblygiadau gwasanaeth, megis:

- Y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles.

- Strategaeth Ystadau BILI - Strategaeth Gofal Iechyd Integredig ar gyfer Safleoedd Gofal Sylfaenol yn Sir y Fflint.
- Cynllun Orthopedig.

S2.3 Cynhelir sesiynau Datblygu Bwrdd bob mis ac fe'u defnyddir i sicrhau bod y Bwrdd yn deall yn llawn y galwadau cystadleuol a phosibl ar y BILI yn ogystal â gofynion polisi cenedlaethol. Sefydlwyd Pwyllgor Gofal Sylfaenol gydag amryw o is-grwpiau i sicrhau y caiff gofal sylfaenol ei ddarparu yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Adolygwyd polisiâu'r BILI ar gyfer gweithredu Canllawiau y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) a'r gweithdrefnau 'Effeithiolrwydd Cyfyngedig' ym mis Chwefror 2007. Darparodd y BILI enghreifftiau o sut y caiff amryw wasanaethau eu datblygu a sut y sicrheir y glynir wrth ganllawiau cenedlaethol, megis datblygu grŵp cynllunio Gwasanaethau Iechyd Meddwl, a phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc syn goruchwylio gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc.

S2.4 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr. Cyrhaeddwyd targedau mynediad nad yw'n fynediad brys ar gyfer holl gleifion Sir y Fflint yn 2006-07. Er bod prosesau ar waith i sicrhau bod gan gleifion fynediad at y gwasanaethau sydd eu hangen arnynt, ymddengys bod prosesau cyfyngedig ar waith i sicrhau y darperir gwybodaeth i gleifion am dystiolaeth ac arfer gorau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol. Yn ogystal, ni ddarperir gwybodaeth am amseroedd aros gan y BILI yn rheolaidd drwy bapurau'r Bwrdd sydd ar gael ar wefan y BILI. Fe'u codwyd fel materion o bryder gan y cleifion y gwnaethom siarad â hwy fel rhan o'r grŵp ffocws cleifion, a deimlai hefyd fod gormod o ddibyniaeth yn cael ei rhoi ar y wefan gan nad yw'r Rhyngwyd ar gael i holl drigolion Sir y Fflint. Er y cytunwn fod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr, mae angen iddo fynd i'r afael â'r prinder gwybodaeth i gleifion a amlygwyd yn ôl pob tebyg.

### **Safon 3**

*Dylai cleifion sydd ag anghenion iechyd brys gael mynediad at ofal priodol yn brydlon ac o fewn terfynau amser cenedlaethol a gaiff eu pennu'n flynyddol gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.*

S3.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S3.2 Rydym yn fodlon bod gan y Bwrdd brosesau digonol ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â thargedau mynediad brys cenedlaethol. Roedd y BILI yn cynnwys tystiolaeth o newidiadau'n cael eu gwneud o ganlyniad i fonitro a gwerthuso, er enghraifft, cymeradwyaeth y Bwrdd o gynlluniau i wella trydedd haen Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed a Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau a ddarperir ar hyn o bryd gan y BILI. Cytunwn felly ar lefel aeddfedrwydd o **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol.

S3.3. Mewn perthynas â rhoi'r newyddion diweddaraf i'r staff o ran perfformiad yn erbyn targedau mynediad brys canolbwyntiodd ymatebion y BILI bron yn gyfan gwbl ar wasanaethau y Tu Allan i Oriau. Cadarnhaodd fod y BILI, fel rhan o'r trefniadau ar gyfer darparu Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol, wedi sefydlu grwpiau cyfarfod staff ar gyfer teleffonyddion a Nyrsys Brysbennu. At hynny, cynhelir cyfarfod tîm llawn gyda phob aelod o staff, yn cynnwys meddygon teulu bob chwe mis. Mae staff sy'n gweithio i'r Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau a ddarperir gan y BILI ar hyn o bryd yn cael eu hysbysu o'r newyddion diweddaraf mewn cyfarfodydd rheolaidd bob deufis. Credwn felly fod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S3.4 Roedd ymateb y BILI i'r modd yr hysbysir cleifion o berfformiad yn erbyn targedau mynediad brys cenedlaethol yn canolbwyntio llawer ar wasanaethau Y Tu Allan i Oriau ac ar ddulliau sydd ar waith mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys i roi cyngor ar amseroedd aros ac opsiynau eraill sydd ar gael megis yr Unedau Mân Anafiadau. Felly ni allwn ond cadarnhau bod y BILI yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

#### **Safon 4**

*Caiff gofal iechyd ei ddarparu mewn lleoliadau priodol sydd wedi'u cynllunio'n dda sydd:*

- a. yn hybu lles y cleifion a'r staff;*
- b. yn parhau anghenion gwahanol gleifion, eu preifatrwydd a chyfrinachedd;*
- c. yn ystyried diogelwch y cleifion, y defnyddwyr a'r staff;*
- d. yn darparu amgylchedd diogel sy'n amddiffyn y cleifion, y staff, yr ymwelwyr a'u heiddo, yn ogystal ag asedau ffisegol y corff.*

S4.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S4.2 Mae Strategaeth Ystadau'r *BILI - Strategaeth Gofal Iechyd Integredig ar gyfer Safleoedd Gofal Sylfaenol yn Sir y fflint 2005-2015* yn nodi sut y bydd yn ymateb i'r newidiadau i'r gwasanaethau a nodir yn ei Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. Mae trefniadau rheoli prosiect y cytunodd y Bwrdd arnynt ar waith sy'n sicrhau mai'r Bwrdd sy'n gyfrifol am reolaeth a darperir y newyddion diweddaraf yn rheolaidd drwy'r adroddiad Corfforaethol. Mae'r Bwrdd yn penodi Hyrwyddwr Ystadau penodedig ar gyfer pob prosiect a rhaid i ddyluniad pob cynllun gael ei gymeradwyo gan Gomisiwn Dylunio Cymru.

S4.3 Mewn perthynas â'i rôl yn sicrhau bod amgylcheddau gofal iechyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol sy'n ymwneud â diogelwch, anghenion, preifatrwydd a chyfrinachedd cleifion a staff, mae gan y BILI y trefniadau canlynol ar waith:

- Gweithdrefnau i gydymffurfio â Pholisi Iechyd a Diogelwch Gogledd-ddwyrain Cymru.
- Polisi Gweithiwr Unigol.
- Aelodaeth o Grwpiau Cyfleusterau'r ddau safle y mae'r BILI yn eu rhentu gan ganolfan Gwasanaethau Busnes Gogledd Cymru ac Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru.
- Pecyn Adrodd am Ddigwyddiadau o Bwys Meddygon Teulu.
- Arolwg Mynediad Gwahaniaethu ar Sail Anabledd.
- Dau Gynghorydd Iechyd a Diogelwch.
- Hyfforddiant mewn Cyfarpar Sgrîn Arddangos a Hyfforddiant Tân.
- Aseidiadau Ergonomaidd.
- Arolygiadau o Bractisau Deintyddol ar raglen dreigl dros dair blynedd.
- Ymweliadau arolygu'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol (GICC) â safleoedd Offthalmig newydd.
- Arolygiadau o safleoedd Fferyllol i asesu addasrwydd yr ystafell ymgynghori ar gyfer adolygiadau defnyddio meddyginiaethau.

- Defnyddio gwasanaeth Ymgynghorydd Iechyd a Diogelwch, mewn partneriaeth â'r pum BILI arall yng Ngogledd Cymru, i ddiweddarau ffolderi iechyd gofal sylfaenol a diogelwch.
- Ffurflenni asesu risg.
- Hyfforddiant Codi a Chario.
- Hyfforddiant Asesu Risg.

S4.4 Ar gyfer prosiectau newydd sy'n datblygu gwahoddir defnyddwyr i fynychu adolygiadau 'Achieving Excellence in Design Evaluation Toolkit', ac mae hyn yn caniatáu i ddefnyddwyr roi sylwadau ar gynllun yr adeilad o ran ymarferoldeb a'r amgylchedd gofal iechyd. Gall staff godi pryderon am amgylcheddau gofal iechyd drwy Bolisi Cofnodi Achosion Niweidiol a Pheryglon y BILI a ffurflenni cofnodi cysylltiedig.

S4.5 Darparwyd enghreifftiau o newidiadau a wnaed i amgylcheddau gofal dros y 12 mis diwethaf ac fe'u cysylltwyd â chamau a gymerwyd yn dilyn adolygiadau Cynghorau Iechyd Cymuned. Ni ddarparwyd tystiolaeth bod y BILI yn cymryd camau i sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn ymwybodol o ofynion diogelwch ac yn cydymffurfio â hwy. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn cael cyfle i drafod datblygiadau a phrosiectau os cânt eu cynnwys yn y rhaglen waith ar gyfer eu cyfarwyddiaeth. Roeddent hefyd yn ymwybodol o fesurau iechyd a diogelwch a dulliau cofnodi. Dywedodd y Grŵp Ffocws Cleifion a'r Cyhoedd wrthym eu bod yn teimlo bod angen ailwampio'r rhan fwyaf o bractisau meddygon teulu a bod angen i hyn ystyried cyfrinachedd a phreifatrwydd.

S4.6 Ni ddangosodd y BILI sut y mae'n sicrhau parch yn barhaus at anghenion cleifion gwahanol, ac ni wnaed unrhyw gyfeiriad at gynlluniau hil na chydaddoldeb (er iddynt gael eu crybwyll yn ei ymateb i Safon 6). Ni wnaed unrhyw gyfeiriad ychwaith at ddarparwyr gofal eilaidd. Felly rydym yn asesu bod y BILI yn **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

## Safon 5

*Darperir gwasanaethau gofal iechyd mewn amgylcheddau:*

- a. sydd wedi eu cynnal yn dda ac yn cael eu cadw ar lefel glanweithdra sy'n dderbyniol yn genedlaethol;*
- b. lleihau'r risg o heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd i gleifion, staff ac ymwelwyr, gan sicrhau lleihad yn nifer yr achosion flwyddyn ar ôl blwyddyn;*
- c. pwysleisio safonau uchel o hylendid ac adlewyrchu mentrau arfer gorau.*

S5.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S5.2 Mae ymateb y BILI yn cyfeirio at arolygiadau o ofal sylfaenol, cynnal a chadw crynodeb cyflwr o safleoedd Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol ac archwiliad rheoli heintiau gofal sylfaenol. Yn ogystal, mae'n derbyn y Cerdyn Sgorio Cytbwys chwarterol ar gyfer ei Ymddiriedolaeth leol, sy'n cynnwys gwybodaeth am dargedau lleihau heintiau cysylltiedig y cytunwyd arnynt yn lleol a chyflwynir adroddiad ar hyn i'r Bwrdd. Fodd bynnag, nid ydym yn glir a yw'r BILI yn rhoi unrhyw ofyniad ar ddarparwyr gwasanaeth gofal eilaidd i gydymffurfio â safonau cenedlaethol glanweithdra fel rhan o'i drefniadau comisiynu. Hefyd mewn perthynas â'r sector annibynnol (nyrsio a chartrefi preswyl) mae'n dibynnu ar y ffaith ei bod yn ofynnol i gyrrff o'r fath gydymffurfio â Safonau Gofal.

S5.3 Mae'r Gyfarwyddiaeth Nyrsio ar y cyd â'r tîm Llywodraethu Clinigol a'r GICC yn cefnogi materion o ran rheoli heintiau ond mae'r BILI yn cadarnhau bod y canolbwynt hyd yma wedi bod ar ofal sylfaenol yn bennaf

S5.4 Darparodd y BILI fanylion am y prosesau sydd ar waith ganddo i sicrhau bod yr holl faterion rheoli a chynnal a chadw eiddo wedi eu nodi ond ni ddisgrifiodd sut y cânt eu gwerthuso a'u hystyried, er i dystiolaeth o'r camau a gymerwyd gael ei darparu. Mae archwiliad rheoli heintiau o ofal sylfaenol wedi ei gynnal mewn partneriaeth â'r GICC am y ddwy flynedd diwethaf. Caiff adroddiadau'r Cynghorau Iechyd Cymuned sy'n ystyried materion glanweithdra eu cyflwyno i'r BILI, ac mae arolygiadau o bractisau deintyddol yn ymdrin â materion glanweithdra a hylendid.

Darparodd y BILL enghreifftiau hefyd o newidiadau a wnaed i brosesau rheoli heintiau a dadhalogi o ganlyniad i ddiwyddiadau.

S5.5 Roedd y BILL yn gallu dangos bod camau'n cael eu cymryd mewn perthynas â phryderon yn ymwneud â chynnal a chadw a lefelau hylendid a glanweithdra. Fodd bynnag, credwn fod angen iddo wneud mwy mewn perthynas â grymuso a chefnogi cleifion a'r cyhoedd i herio staff mewn perthynas â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd.

S5.6 Cytuwn fod y BILL yn **Datblygu** ar y tair lefel.

### **Safon 6**

*Mae cyrff gofal iechyd, wrth gydnabod y gwahanol anghenion o ran cyfathrebu a'r gwahanol anghenion ieithyddol, corfforol a diwylliannol:*

- a. *yn sicrhau bod gwybodaeth am eu gwasanaethau o fewn cyrraedd y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu gofalwyr a'u perthnasau a'r cyhoedd;*
- b. *yn rhoi gwybodaeth yn brydlon i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth am eu cyflwr; y gofal a'r driniaeth y byddant yn eu cael yn ogystal â'r trefniadau ar gyfer darparu ôl-ofal a chymorth; rhoi cyfleoedd i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth i drafod a chytuno ar opsiynau'n ymwneud â'u gofal.*

S6.1. Asesodd y BILL ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S6.2 Mae Strategaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd y BILL ynghyd â'i Strategaeth Gyfathrebu, y Cynllun Iaith Gymraeg, y Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a'r cynllun gweithredu a'r Cynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a'r cynllun gweithredu yn nodi nod y BILL o sicrhau bod gwybodaeth am wasanaethau ar gael yn hawdd i bob aelod o'r cyhoedd waeth beth fo'i anghenion ieithyddol neu gorfforol gwahanol. Mae Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol ar ffurf ddrafft. At hynny mae wedi cynhyrchu *Guide to Producing Accessible Information for the Public* a anfonwyd at staff y BILL a darparwyr gofal sylfaenol.

S6.3 Er mwyn cefnogi staff i wneud gwahaniaeth mewn perthynas â'r safon hon mae'r BILL wedi :

- Gwneud cyflwyniadau 'Ymwybyddiaeth o Gydraddoldeb' ac wedi trefnu gweithdai ar gyfer staff y BILL a staff gofal sylfaenol.
- Llunio Contract gyda Llinell Iaith i ddarparu gwasanaethau cyfieithu dros y ffôn ac wyneb yn wyneb.
- Llunio Cytundeb gyda'r Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thwm eu Clyw (RNID) i ddarparu dehonglwyr iaith arwyddion i gleifion
- Prynu copi o Lyfr Ymadroddion Amlieithog Brys y Groes Goch ar gyfer pob practis meddyg teulu, y Gwasanaethau y Tu Allan i Oriau a fferyllfeydd.
- Darparu hyfforddiant aml-asiantaeth ar y Broses Asesu Unedig.
- Darparu 'Religious and Cultures - a guide to beliefs, customs and diversity for health and social care services' i dimau nyrsio'r BILL, practisau meddygon teulu, timau nyrsio ardal, cartrefi nyrsio ac ysbytai cymunedol.
- Cyhoeddi DVD 'Good Health' i bob ymarferydd gofal sylfaenol i godi ymwybyddiaeth o anghenion ieithyddol gwahanol cleifion.

S6.4 Mae Gweithgor Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd yn gyfrifol am adolygu pob taflen a dogfen a gyhoeddir ar gyfer y cyhoedd a chleifion. Darparwyd sawl enghraifft o'r modd y mae'r BILL yn hysbysu cleifion a'r cyhoedd ac roedd y rhain yn cynnwys:

- *Eich Canllaw i Wasanaethau Iechyd Lleol yn Sir y Fflint.* Mae'r canllaw yn cynnwys gwybodaeth am argaeledd dolenni sain a mynediad cadair olwyn mewn safleoedd gofal sylfaenol. Defnyddir baneri Cymru i ddangos bod clinigwyr neu aelodau staff sy'n siarad Cymraeg yn y safleoedd gwahanol.
- Rhaglen addysg strwythuredig arbenigol diabetes i'w chyflwyno i'r rhai sydd ag anabledd dysgu.
- Gwybodaeth a chyflwyniadau i gleifion sydd â chlefyd Parkinson.
- Taflenni a hysbyslenni ar Boen Angina
- Darparu llyfr Adnodd Imiwneiddio dwyieithog i bob meddygfa a Chlinig Iechyd i gleifion ei ddefnyddio tra'n aros.
- Defnyddio'r wasg leol i hysbysebu, er enghraifft, y Rhaglen Claf Arbenigol.
- Defnyddio'r wefan i ddangos y rhaglenni gwybodaeth am hunanreoli cleifion.

- Darparu taflenni Pwylaidd a Bwlgaraidd i adrannau iechyd galwedigaethol safleoedd dofednod lleol i ategu rhaglen Brechiad fflw.

S6.5 Darparodd y BILL dystiolaeth gyfyngedig o'r prosesau ar gyfer monitro hygyrchedd gwybodaeth am wasanaethau a chyflyrau i ddefnyddwyr y gwasanaeth gan ddibynnu ar arolygon boddhad cleifion GPAQ ac ymweliadau â'r Cynghorau Iechyd Cymuned. At hynny, mae'r BILL yn dibynnu ar y broses gwyno i fynd i'r afael â datrys unrhyw wahaniaethau rhwng dewis y claf a barn broffesiynol. Mae angen gwneud rhagor o waith yn y meysydd hyn.

S6.6 Ar sail eu cyflwyniad hunanasesu, cytunwn fod y BILL yn **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol. Rydym hefyd yn credu ei fod yn **Ymarfer** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol gyda'r prosesau ar waith yn lleol i gefnogi datblygiad ac argaeledd y wybodaeth am wasanaethau a'r ddarpariaeth ohoni sy'n dangos ei fod mewn sawl ystyr yn arwain. Fodd bynnag, oherwydd y materion a nodir ym mharagraff 6.5 uchod cytunwn fod y BILL yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

## Safon 7

*Mae'r cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth, gan gynnwys pobl ag afiechydon hirdymor, yn cael eu hannog i gyfrannu at eu cynlluniau gofal eu hunain ac yn cael cyfleoedd ac adnoddau i ddysgu sut i ofalu amdanynt eu hunain.*

S1.1 Asesodd y BILL ei hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S7.2 Mae'r BILL wedi rhoi nifer o brosiectau ar waith i gefnogi'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau i gleifion yn arbennig y rhai â chyflyrau hirdymor, a grymuso cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth i wneud penderfyniadau a dewisiadau am eu gofal a'u triniaeth. Mae'r rhain yn cael eu datblygu o dan nawdd Cynllun Gweithredu Lleol Wanless. Yn eu plith mae:

- Y rhaglen Claf Arbenigol
- Cyflogi nyrsys rheoli clefydau cronig ar gyfer Clefyd Coronaidd y Galon, Diabetes, clefyd Anadlol a chlefyd Parkinson.

- Cyflwyno, mewn partneriaeth ag Age Concern Gogledd-ddwyrain Cymru ac Awdurdod Lleol 'Wellcheck' fenter wedi ei hanelu at rymuso cleientiaid i geisio cymorth i gynnal eu hannibyniaeth.
- Y Broses Asesu Unedig.
- Cefnogaeth i Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru wrth ddatblygu Dull Gweithredu'r Rhaglen Ofal yn y gwasanaethau iechyd meddwl i gyd.
- Datblygu Llwybr Gofal Lliniarol.
- Rhaglenni addysgol strwythuredig i gefnogi cleifion i wneud penderfyniadau hyddysg, er enghraifft, 'breatheasy', poen angina a DESMOND.

S7.3 Roedd tystiolaeth o werthuso'r rhaglen Claf Arbenigol yn barhaus ac yn dilyn gwerthusiad o fenter *Wellcheck* gwnaed penderfyniad i barhau i'w hariannu.

S7.4 Darparodd y cleifion a'r staff y gwnaethom siarad â hwy adborth cadarnhaol mewn perthynas â rhaglen Claf Arbenigol Diabetes a rhaglenni hyfforddiant hunanreoli 'breatheasy', fodd bynnag, yn eu barn hwy nid oedd digon o gyrsiau ar gael.

S7.5 Cytunwn ag asesiad y BILI o'i hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer y safon hon.

## Safon 8

*Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:*

- a. *bod y staff yn trin y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, eu perthnasau a'u gofalwyr ag urddas a pharch;*
- b. *bod y staff eu hunain yn cael eu trin ag urddas a pharch waeth beth fo'r gwahaniaethau rhyngddynt;*
- c. *yr eir ati'n briodol i gael caniatâd cyn cysylltu â chleifion a defnyddwyr y gwasanaeth a chyn defnyddio gwybodaeth gyfrinachol am gleifion;*
- d. *bod unrhyw wybodaeth am gleifion yn cael ei thrin yn gyfrinachol, ac eithrio pan fo deddfwriaeth yn caniatáu ei defnyddio.*

S8.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S8.2 Roedd y BILI yn gallu dangos bod strategaethau a pholisïau ar waith i sicrhau cydymffurfiaeth â chanllawiau cenedlaethol yn ymwneud â materion urddas, parch a chaniatâd hyddysg ac felly rydym yn fodlon cytuno â'i asesiad o fwrdd sy'n **Datblygu** ar Lefel Gorfforaethol. Mae camau a gymerwyd gan y BILI yn cynnwys:

- Mabwysiadu Polisi Urddas yn y Gwaith; rhan o bolisïau AD Cymru gyfan.
- Mabwysiadu ystod o gynlluniau cydraddoldeb.
- Gweithredu Polisi Diogelu Data a Chyfrinachedd.
- Cytuno ar Gytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru.
- Cyflwyno nifer o brotocolau rhannu gwybodaeth.
- Cymeradwyaeth gan y Bwrdd i Gynllun Gwella Caldicott.
- Derbyn adroddiadau o ran cydymffurfiaeth cartrefi gofal yn y sector annibynnol â safonau gofynnol Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) o ran urddas a pharch.
- Datblygu a chytuno ar Ganllawiau Gwarchod i staff y BILI a staff gofal sylfaenol.
- Darparu hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Gofyniad i deffonyddion y Tu Allan i Oriau gwblhau NVQ ar Ofal Cwsmeriaid.
- Darparu 'Religious and Cultures - a guide to beliefs, customs and diversity for health and social care services' i dimau nyrsio'r BILI, practisau meddygon teulu, timau nyrsio ardal, cartrefi nyrsio ac ysbytai cymunedol.

Mae'r Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Iechyd y Cyhoedd yn Arwain y Blaen o ran materion Cydraddoldeb yn y BILI, fodd bynnag, nid yw'n glir pa aelod o'r Bwrdd sy'n arwain y blaen o ran materion Urddas, Parch a Chaniatâd.

S8.3 Roeddem yn pryderu i glywed nad oes gan y BILI Bolisi Caniatâd ar waith, ac argymhellwn eu bod yn mynd i'r afael â hyn ar fyrder. At hynny, nid oes unrhyw ddulliau ar waith i fonitro cydymffurfiaeth â gofynion caniatâd.

S8.4 Darparodd y BILI nifer o enghreifftiau o sut yr hysbysir staff o bwysigrwydd trin cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth a'i gilydd gydag urddas a pharch, gan gynnwys hyfforddiant a sesiynau ymwybyddiaeth. Fodd bynnag, ni wnaed unrhyw gyfeiriad at

*Hanfodion Gofal.* Rydym hefyd yn fodlon bod systemau ar waith i sicrhau y caiff staff gyfleoedd i roi adborth ar eu safbwyntiau o ran y ffordd y cânt eu trin.

S8.5 Hefyd, ni ddarparodd unrhyw wybodaeth mewn perthynas â datblygu na gweithredu dulliau ac arferion ar gyfer rhoi gwybodaeth i gleifion am roi caniatâd neu ddysgu o fonitro cydymffurfiraeth â chanllawiau caniatâd cleifion.

S8.6 Credwn fod y BILL yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol ond nad yw ond yn **Ymateb** ar lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

## **Safon 9**

*Lle bydd bwyd yn cael ei ddarparu bydd systemau ar waith i sicrhau:*

- a. bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael dewis o fwydydd sydd wedi'u paratoi'n ddiogel ac sy'n sicrhau deiet gytbwys;*
- b. bod gofynion personol, diwylliannol a chlinigol y cleifion o ran deiet yn cael eu bodloni, gan roi unrhyw gymorth sydd ei angen arnynt i fwyta, a sicrhau bod ganddynt fynediad at fwyd 24 awr y dydd.*

S9.1 Asesodd y BILL ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymwybodol** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S9.2 Fel y rhan fwyaf o BILLau, nododd ymateb Sir y Fflint fod llawer o'r meini prawf a bennwyd ar gyfer y safon hon yn briodol i gyrrff darparwyr yn unig. Fel Arolygiaeth Gofal Iechyd mae ymateb o'r fath yn peri pryder i ni gan y dylai comisiynwyr fod yn sicrhau bod gan gyrrff darparwyr y systemau a'r prosesau ar waith i sicrhau bod gofynion y safon hon yn cael eu bodloni.

S9.3 Mae BILLau yn comisiynu cyfnod gofal, y gall rhan ohono fod yn driniaeth benodol. Felly dylent sicrhau bod materion megis gofynion maeth a deiet yn cael eu trin fel rhan o drefniadau comisiynu.

S9.4 Fodd bynnag, mae agweddau ar y safon hon sy'n cael eu datblygu gan y BILL, megis:

- Mae tîm cymorth clinigol y BILL a'r tîm gofal iechyd parhaus yn nodi pobl hŷn y mae angen cymorth arnynt i fwyta fel rhan o'r Broses Asesu Unedig.

- Mae codi ymwybyddiaeth am ddeiet wedi cael ei ddatblygu ar y cyd â Deietegwyr o Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru.
- Darperir gwybodaeth am ddeiet fel rhan o Rhaglen Arbenigol Diabetes a chynhelir archwiliad o'r ffrwythau a'r llysiau a fwyteir cyn ac ar ôl y rhaglen arbenigol.
- Rhoddwyd hyfforddiant Dull Sgrinio Cyffredinol Diffyg Maeth (MUST) i staff clinigol priodol y BILI.
- Prynu cloriannau pwysu ar gyfer cartrefi gofal.

S9.5 Cytunwn mai dim ond **Ymwybodol** yw'r BILI ar lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr. Fodd bynnag, yng ngoleuni'r gwaith a grybwyllwyd uchod credwn ei fod yn **Ymateb** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol. Caiff rhagor o ganllawiau ar rôl BILI i sicrhau y bodlonir y safon hon eu rhoi yn barod ar gyfer cyflwyniad y flwyddyn nesaf.

### **Safon 10**

*Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau nad yw pobl sy'n cael gofal iechyd yn destun unrhyw wahaniaethu ar sail oed, rhyw, anabledd, ethnigrwydd, hil, crefydd na thueddfryd rhywiol.*

S10.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S10.2 Mae Cynllun Iaith Gymraeg, Cynllun Cydraddoldeb Hiliol a chynllun gweithredu a Chynllun Cydraddoldeb i Bobl Anabl a chynllun gweithredu wedi eu cymeradwyo gan y Bwrdd. Mae Cynllun Cydraddoldeb Rhywiol ar ffurf ddrafft. At hynny y Cyfarwyddwr Cyswllt ar gyfer Iechyd y Cyhoedd yw'r Swyddog Gweithredol arweiniol ar gyfer cydraddoldeb. Nodir manylion am drefniadau misol ym mhob cynllun a darperir adroddiadau hanner blwyddyn i'r tîm rheoli a'r Bwrdd.

S10.3 Mae'r BILI yn codi ymwybyddiaeth drwy sesiynau briffio staff, hyfforddiant ymwybyddiaeth a gweithdai.

S10.4 Ar lefel Profiad y Defnyddiwr darparodd y BILI enghreifftiau o ddatblygiadau diweddar mewn ymateb i anghenion grwpiau/unigolion penodol ac roedd y rhain yn cynnwys enghreifftiau o fentrau i ddiwallu anghenion y gymuned fyddar, mynd i'r

afael â chydraddoldeb rhywiol ym maes cardioleg, cleifion iechyd meddwl, a sicrhau y caiff plant nad oes ganddynt feddyg teulu eu cofrestru.

S10.5 Ni ddarparwyd tystiolaeth o welliant parhaus nac ymddygiad, felly credwn fod y BILL yn **Datblygu** ar dair lefel y safon hon.

## 4.2 Canlyniadau Clinigol

### Safon 11

*Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:*

- a. bod triniaethau a gofal clinigol yn cael eu darparu gan bobl broffesiynol ym maes gofal iechyd sy'n gwneud penderfyniadau clinigol ar sail tystiolaeth;*
- b. y caiff gofal clinigol a thriniaethau eu cynnal o dan oruchwyliaeth ac arweiniad staff clinigol;*
- c. bod clinigwyr yn parhau i ddiweddarau eu sgiliau a'r technegau sy'n berthnasol i'w gwaith, gan gynnwys adolygiadau cymheiriaid;*
- d. bod clinigwyr yn archwilio ac yn adolygu'r gwasanaethau clinigol yn rheolaidd.*

S1.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S11.2 Mae'r BILI wedi rhoi'r systemau canlynol ar waith i sicrhau y darperir gofal clinigol a thriniaethau yn seiliedig ar dystiolaeth orau:

- Strategaeth Llywodraethu Clinigol.
- Strategaeth Archwilio.
- Polisi ar gyfer Gweithredu Canllawiau NICE
- Triniaethau ag Effeithiolrwydd Cyfyngedig
- Nodi arweinwyr Llywodraethu Clinigol ar draws practisau meddygon teulu, deintyddiaeth a fferylliaeth.

S11.3 Mae Pwyllgor Llywodraethu Clinigol y BILI yn monitro cydymffurfiaeth â'r strategaethau a'r canllawiau uchod ac mae Pwyllgor Rhagnodi'r BILI yn monitro data rhagnodi.

S11.4 Nid oes gan y BILI strategaeth na fframwaith ar hyn o bryd ar gyfer goruchwyliaeth glinigol ac mae wedi amlygu'r maes hwn fel un y mae angen ei ddatblygu. Fodd bynnag, yn y gwasanaeth y Tu Allan i Orlau mae pedwar goruchwylwr clinigol i alluogi cofrestrdyddion practisau i gwblhau eu hymrwymiaadau o ran hyfforddiant y tu allan i oriau, ac mae uwch reolwyr yn y BILI wedi cynnal rhaglen Prif Arweinyddiaeth. Mae Prosesau Datblygu Perfformiad hefyd ar waith ar gyfer staff y BILI.

Er y cytunwn ag asesiad y BILL o'i hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol byddem wedi hoffi gweld mwy o fanylion o ran adroddiadau'r bwrdd a dulliau monitro a chraffu.

S11.5 Mae'r BILL yn defnyddio'r grwpiau a'r fforymau amrywiol sydd ar waith i nodi pynciau archwilio sydd o ddiddordeb i'w galwedigaeth neu eu hardal. Caiff y pynciau archwilio a nodwyd eu blaenoriaethu wedyn gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol a chaiff Cynllun Archwilio ei ddatblygu. Cynigir y dylid sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gwasanaethau Comisiynu Effeithiol yn Glinigol gyda'r nod o adolygu'r prosesau presennol ar gyfer mabwysiadu cynhyrchion, triniaethau ac ymyriadau newydd yn yr ardal. Caiff hyn ei ddatblygu mewn partneriaeth â BILL Wrecsam.

S11.6 Darparodd y BILL enghreifftiau o'r ffyrdd y mae'n sicrhau cleifion bod penderfyniadau clinigol yn seiliedig ar arfer gorau, megis cynnwys manylion yn ei Adroddiad Blynyddol a sesiynau gwybodaeth a ddarperir i grwpiau cymunedol ar imiwneiddio. Fodd bynnag, credwn y gellid gwneud mwy yn y maes hwn. Felly credwn fod y BILL yn **Datblygu** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ond nad yw ond yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

## **Safon 12**

*Bydd cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn cael triniaeth a gofal effeithiol sydd:*

- a. yn cydymffurfio ag arfarniadau technegol a gweithdrefnau ymyrryd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) ac argymhellion Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan (AWMSG);*
- b. yn seiliedig ar ganllawiau ac arferion da y cytunwyd arnynt yn genedlaethol, fel y'u diffiniwyd yn Fframweithiau'r Gwasanaeth Cenedlaethol, canllawiau clinigol NICE, y cynlluniau cenedlaethol a'r canllawiau ar ddarparu gwasanaethau y cytunwyd arnynt yn genedlaethol;*
- c. yn ystyried anghenion a dymuniadau corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol y cleifion;*
- d. yn integredig er mwyn darparu un gwasanaeth ar gyfer yr holl gyrff sydd i'w cynnwys, gan gynnwys cyrff gofal cymdeithasol.*

S12.1 Asesodd y BILL ei hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S12.2 Mae sicrwydd y Bwrdd bod anghenion cleifion yn cael eu hystyried o safbwynt corfforol, cymdeithasol, diwylliannol a seicolegol yn aneglur ac ni wneir unrhyw gyfeiriad at sut y mae'r Bwrdd yn sicrhau bod yr *Agweddau Sylfaenol ar Ofal* yn cael eu gweithredu. Ni chynhwyswyd enghreifftiau o fonitro yn arwain at gynnydd pellach. Darperir tystiolaeth o weithio mewn partneriaeth, fodd bynnag, ni nodir prosesau ar gyfer blaenoriaethu a chefnogi'r gwaith o ddatblygu Llwybrau Gofal Integredig. Nid yw'n glir bod yr agenda strategol yn cael ei datblygu na'i monitro gan y Bwrdd nac ychwaith bod tystiolaeth o welliant parhaus ar draws yr ystod lawn o wasanaethau a gomisiynir. Rydym wedi asesu bod materion allweddol yn cael eu cydnabod ond cyfyngedig yw'r dystiolaeth o arfer da ar hyn o bryd. Rydym felly wedi asesu bod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol.

S12.3 Darparwyd tystiolaeth o'r gwaith o baratoi a chefnogi staff i addasu i anghenion gwahanol cleifion ac roedd yn cynnwys cyfleoedd hyfforddi a datblygu. Dim ond dwy enghraifft o Lwybrau Gofal Integredig a ddatblygwyd ac a weithredwyd dros y 12 mis diwethaf a ddarparwyd. Roedd y rhain yn ymdrin â Diabetes Math 2 a Chlefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint (COPD). Bwriedir treialu Llwybr Atal Cwmpyadau. Byddai tystiolaeth o'i ddefnyddio'n ymarferol ar draws sbectrwm ehangach yn symud y BILI tuag at y lefel Datblygu. Fodd bynnag, ar hyn o bryd asesir bod y BILI yn **Ymateb** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S12.4 Roedd ymatebion y BILI i'r cwestiynau ar lefel Profiad y defnyddir yn gyfyngedig er iddo nodi bod *Wellcheck* wedi cael ei werthuso ac er ei fod yn dangos bod unigolion yn teimlo'n fwy annibynnol o ganlyniad i gael y wybodaeth a'r cymorth yr oedd yn ei ddarparu, ni roddwyd unrhyw dystiolaeth o hyn. Ceir tystiolaeth o rywffaint o welliant er nad yw wedi bod yn gyson ar draws pob maes clinigol ac felly aseswyd bod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 13**

*Bydd gan gyrff gofal iechyd, sydd naill ai'n arwain neu'n cyfrannu at waith ymchwil, systemau i sicrhau bod egwyddorion a gofynion y fframwaith llywodraethu ymchwil yn cael eu cymhwyso'n gyson.*

S13.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S13.2 Pennaeth Llywodraethu Clinigol a Chorfforaethol y BILI ynghyd â'r Cyfarwyddwr Cyswllt Iechyd y Cyhoedd sy'n gyfrifol am Lywodraethu Ymchwil. Dirprwywyd cyfrifoldeb dros Lywodraethu Ymchwil gan y Bwrdd i'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.

S13.3 Mae'r BILI wedi bod yn gweithio gydag Ymddiriedolaeth GIG Gogledd-ddwyrain Cymru, BILI Wrecsam ac Ysgol Nyrso Gogledd-ddwyrain Cymru i ddatblygu Strategaeth Llywodraethu Ymchwil a Chynllun Gweithredu ar y cyd.

S13.4 Cytunwn ag asesiad y BILI o'i hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol.

S13.5 Noda'r BILI y bydd y systemau cyfathrebu ar gyfer y maes gweithgaredd hwn yn dod yn fwy effeithiol pan weithredir y Strategaeth. Yn ogystal bwriedir cynnal seminar ymchwil ar y cyd yn ystod tymor yr hydref 2007. Er y bydd y camau hyn yn sicrhau bod lefel aeddfedrwydd o Ddatblygu ar ôl iddynt gael eu gweithredu, ar hyn o bryd credwn fod y BILI yn **Ymateb** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S13.6 Ni chafwyd tystiolaeth o enghreifftiau o welliannau dros y 12 mis diwethaf o ran llywodraethu ymchwil sydd wedi effeithio ar brofiad cleifion. Yn hytrach, manylwyd ar enghreifftiau o ganlyniadau prosiectau ymchwil. Felly rydym yn asesu bod y BILI yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr hefyd.

### 4.3 Llywodraethu Gofal Iechyd

#### Safon 14

*Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati'n barhaus ac yn systematig i adolygu a gwella'r holl agweddau ar eu gweithgareddau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd y cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, staff a'r cyhoedd. Byddant nid yn unig yn parchu'r ddeddfwriaeth, ond hefyd yn defnyddio arferion gorau wrth asesu a rheoli risg.*

S14.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S14.2 Mae gan y BILI y strategaethau a'r polisiau canlynol ar waith i ddarparu canllawiau a chngor ar faterion sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch ac iechyd cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, staff a'r cyhoedd, ac yn eu plith mae:

- Strategaeth Rheoli Risg
- Polisi Iechyd a Diogelwch
- Polisi Cofnodi Achosion Niweidiol, Peryglon a Damweiniau Fu Bron â Digwydd

At hynny mae Pwyllgor Rheoli Risg a chofrestr risg ar waith. Y Cyfarwyddwr Cyllid yw'r Swyddog Gweithredol arweiniol ar gyfer risg a chaiff y Gofrestr Risg ei diweddarau yn chwarterol a chyflwynir adroddiad i'r Bwrdd drwy'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol.

S14.3 Ni chafodd rhai o'r polisiau y byddem yn disgwyl iddynt fod ar waith megis Polisi Tân, Polisi Gwastraff, ac ati eu rhestru. Yn ogystal, byddem wedi hoffi gweld mwy o fanylion am drefniadau monitro'r Bwrdd a thystiolaeth o welliant parhaus. Wedi dweud hynny, roeddem yn gallu cytuno ar hunanasesiad y BILI ei fod yn Fwrdd sy'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol.

S14.4 Mae gan y BILI drefniadau ar waith i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r gofynion deddfwriaethol a'r arferion gorau sy'n ymwneud â rheoli risg gyda sesiynau ymwybyddiaeth o risg a diwrnodau hyfforddiant yn cael eu cynnal. Yn ogystal, datblygwyd Ffolderi Iechyd a Diogelwch ar gyfer Gofal Sylfaenol a darparwyd offer

megis pecyn Llywodraethu Clinigol BDA ar gyfer Practisau Deintyddol a dull hunanasesu Llywodraethu Clinigol Cymru Gyfan ar gyfer meddygon teulu a deintyddion i'w helpu i asesu risg. Mae angen gwneud mwy o waith i sicrhau bod staff yn cyfrannu at weithgareddau sy'n effeithio'n gadarnhaol ar ddiogelwch ac iechyd cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, staff a'r cyhoedd ac yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hynny gan fod ymateb y BILI i'r cwestiwn hwn yn wan. Credwn, felly, bod y BILI yn **Ymateb** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S14.5 Ni wnaeth y BILI, mewn gwirionedd, ateb y cwestiwn '*Sut mae cleifion a defnyddwyr y gwasanaeth yn gysylltiedig â datblygu rhaglenni gwella ansawdd*' ac mae'n rhestru cynrychiolwyr o blith aelodau'r Bwrdd, y Cyngor Iechyd Cymuned a'r gofalwyr ar ei bwyllgorau. Fodd bynnag, darparodd enghraifft o'r camau a gymerir i ymateb i fater a amlygwyd fel risg bosibl i ddiogelwch cleifion. Ni chofnodwyd unrhyw achos o dor-rheolaeth deddfwriaethol yn 2006-2007. Credwn fod y Bwrdd yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 15**

*Mae cyrff gofal iechyd, gan gydnabod y gwahanol anghenion o ran iaith a chyfathrebu, yn sicrhau bod cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, perthnasau a gofalwyr:*

- a. yn gallu rhoi adborth ar eu profiadau ac ar ansawdd y gwasanaethau;*
- b. yn cael sicrwydd bod eu cwynion yn cael sylw prydlon a thrylwyr yn unol â'r weithdrefn;*
- c. yn cael gwybodaeth am gymorth eiriolaeth ar gyfer cwynion a ddarperir gan Gyngorau Iechyd Cymuned yng Nghymru;*
- d. yn cael sicrwydd bod y cyrff yn ymateb i unrhyw bryderon ac yn gwneud newidiadau priodol er mwyn gwella'r broses o ddarparu gwasanaethau.*

S15.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol ac yn **Ymarfer** ar lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S15.2 Nododd y BILI yn ei hunanasesiad mai'r bwriad oedd uno ei weithdrefn gwyno safonol yn Bolisi a gweithdrefnau Cwyno a Hawlio. Caiff y Bwrdd Adroddiad Blynyddol ar Gwynion sydd hefyd yn nodi'r gwersi a ddysgwyd yn sgîl cwynion a gafwyd. Yn ogystal roedd panel Cwynion ar waith wedi ei gadeirio gan aelod o'r Bwrdd nad oedd yn swyddog.

S15.3 Mae'r ymatebion i'r cwestiynau lefel Gorfforaethol yn canolbwyntio'n llwyr ar y broses Gwyno a byddai wedi bod yn ddefnyddiol gweld sut yr ymdrinnir â sylwadau a chanmoliaeth. At hynny, dim ond cyfeiriad at wybodaeth am y broses gwyno sydd ar gael yn Saesneg a Chymraeg a wneir er i gyfeiriad cynharach gael ei wneud at fewnfudwyr o wlad Pwyl a Bwlgaria, ac ymddengys na chaiff cwynion eu monitro ar sail hil, anabledd, crefydd na chred, oedran, rhywedd na rhywioldeb. Rydym wedi asesu'r BILI fel Bwrdd sy'n **Ymateb** ar lefel Gorfforaethol.

S15.4 Mae ymatebion y BILI i'r cwestiynau lefel weithredol yn darparu tystiolaeth o gymorth cyfyngedig yn cael ei roi i'r staff i'w gwneud yn gymwys i ymdrin â chwynion. Fodd bynnag, o'r ymatebion i'r cwestiynau o dan Safon 6 mae'n glir bod llawer o ddulliau ar gael i'r staff i'w galluogi i gefnogi cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, gofalwyr a pherthnasau i roi adborth yn y dull a'u hiaith o'u dewis.

S15.5 Fodd bynnag, dywedodd staff wrthym eu bod yn ymwybodol o'r weithdrefn gwyno a'u bod wedi cael hyfforddiant cynhwysfawr ar ymdrin â chwynion. Roedd grŵp ffocws y cyhoedd a'r cleifion ychydig yn bryderus nad oedd posteri, taflenni na dogfennaeth yn rhoi arweiniad ar wneud cwyn i'w gweld a/neu ar gael yn hawdd mewn practisau gofal sylfaenol.

S15.6 Credwn fod y BILI yn **Datblygu** ar lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr ar gyfer y safon hon.

## **Safon 16**

*Mae gan gyrff gofal iechyd systemau ar waith:*

- a. i nodi pob digwyddiad yn ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau eraill y gellir eu cofnodi, a dysgu ganddynt;*
- b. i adrodd digwyddiadau i System Genedlaethol Adrodd a Dysgu'r Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA) a chyrff eraill, yn unol â'r canllawiau presennol;*
- c. dangos eu bod wedi gwella eu harferion ar sail gwybodaeth a phrofiadau lleol a chenedlaethol a rennir sy'n deillio o'r dadansoddiad o ddigwyddiadau;*
- d. sicrhau bod pobl yn gweithredu yn ôl hysbysiadau a rhybuddion diogelwch, a negeseuon eraill yn ymwneud â diogelwch y cleifion, o fewn y terfynau amser.*

S16.1 Asesodd y BILL ei hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S16.2 Mae'r Bwrdd wedi cytuno ar *Bolisi Cofnodi Achosion Niweidiol, Peryglon a Damweiniau Fu Bron a Digwydd* a chaiff y gwaith o gydymffurfio â'r polisi ei fonitro gan y Pwyllgor Llywodraethu Clinigol a chyflwynir adroddiadau i'r Bwrdd. Y Cyfarwyddwr Nyrsio yw'r Swyddog Gweithredol arweiniol ar gyfer cofnodi achosion a'r Pennaeth Llywodraethu Clinigol a Chorfforaethol yw'r arweinydd gweithredol sy'n gyfrifol am sicrhau y cyflwynir yr holl adroddiadau priodol. Mae Strategaeth Archwilio'r BILL yn annog y defnydd o adroddiadau achosion a damweiniau fu bron â digwydd ac ansawdd y gwasanaethau a ddarperir ac mae'r BILL wedi amlygu cam gweithredu cysylltiedig ar gyfer ei Gynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd.

S16.3 Mae'r Pwyllgor Llywodraethu Clinigol yn trafod hysbysiadau a rhybuddion diogelwch NPSA. Ar sail ymateb y BILL cytunwn ar lefel aeddfedrwydd o **Ddatblygu** ar lefel Gorfforaethol ond o gofio nad oes manylion systemau ar waith ar gyfer dosbarthu hysbysiadau a rhybuddion am ddiogelwch cleifion, credwn ei fod ar ben isaf y lefel ddatblygu.

S16.4 Darparwyd hyfforddiant i staff y BILL a staff gofal sylfaenol mewn perthynas â chofnodi achosion, er nad yw'n glir faint sy'n mynd i'r hyfforddiant nac ychwaith sut y mae'r BILL yn monitro presenoldeb. Darperir arweiniad a chymorth gan y Tîm Llywodraethu Clinigol a chopiwyd CD-ROM enghreifftiol NPSA i reolwyr practisau a fferyllwyr. At hynny mae'r BILL wedi datblygu cylchlythyr achosion o bwys a chaiff hwn ei ddosbarthu i bob contractwr gofal sylfaenol fel y gellir dysgu gwersi a rhannu arfer gorau. Cadarnhawn asesiad o **Ddatblygu** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S16.5 Ni ddarparodd y BILL enghreifftiau o brosesau sydd ar waith i sicrhau y caiff newidiadau a wnaed o ganlyniad i achosion diogelwch cleifion lleol a chenedlaethol eu cyfleu i gleifion a defnyddwyr y gwasanaeth a nododd na all orfodi rhybuddion ym maes gofal sylfaenol oherwydd statws contract annibynnol darparwyr. At hynny, mae'r BILL yn cydnabod bod nifer yr achosion yr hysbysir NPSA ohonynt yn fach ac

mae'n cymryd camau i fynd i'r afael â hyn. Credwn felly fod y BILI yn **Ymateb** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 17**

*Bydd cyrff gofal iechyd yn cydymffurfio â chanllawiau cenedlaethol ar amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed wrth gynnal eu gweithgareddau eu hunain ac wrth ddelio â chyrrff eraill.*

S17.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar y tair lefel.

S17.2 Roedd y BILI yn gallu dangos ei fod yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r safon hon ac mae rhai ohonynt yn cynnwys:

- Mabwysiadu gweithdrefnau Cymru gyfan ar gyfer Amddiffyn Plant.
- Rhaglen dreigl o dair blynedd o hyfforddiant ar amddiffyn plant ar gyfer Aelodau'r Bwrdd.
- Polisiau a gweithdrefnau amddiffyn plant a ddarperir i Ofal Sylfaenol
- Cronfa ddata Hyfforddiant amddiffyn plant.
- Archwiliadau diogelu plant blynyddol
- Monitro lleoliadau y tu allan i'r sir gan GICC ar ran y BILI
- Hyfforddiant a diweddarau mewn perthynas â materion Amddiffyn Plant yn unol â strategaeth hyfforddi NPHS.
- Cyfarwyddwyr Gweithredol Penodedig â chyfrifoldeb am Amddiffyn Plant - Cyfarwyddwr nyrsio.
- Ymrwymo i weithdrefnau Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA) aml-asiantaeth Gogledd Cymru
- Darparu hyfforddiant aml-asiantaeth ar POVA
- Cynnal gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol/POCA/POVA.
- Archwiliad o wiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol

S17.3 Mae'n glir bod y BILI yn cymryd materion Amddiffyn Plant a POVA o ddifrif; fodd bynnag, nodwn na wnaed unrhyw gyfeiriad at gynnwys gofynion penodol Amddiffyn Plant na POVA mewn cytundebau comisiynu. Nid oedd dulliau sicrwydd y Bwrdd yn glir ac nid oes arweinydd ar lefel y Bwrdd ar gyfer POVA. Credwn felly fod

y BILI yn Fwrdd sy'n **Ymateb** ar lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S17.4 Cynhelir archwiliadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol/POVA/POCA yn flynyddol ar gyfer staff y BILI a chontractwyr gofal sylfaenol. At hynny, mewn ymateb i adolygiad achos difrifol, mae'r BILI wedi ariannu swydd ymwelydd iechyd yn Ymddiriedolaeth GIG Sefydledig Iarlles Caer i sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau amddiffyn plant cenedlaethol. Cytunwn felly fod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

### **Safon 18**

*Mae cyrff gofal iechyd wedi cynllunio a pharatoi ymateb trefnus i ddigwyddiadau ac argyfyngau a allai effeithio ar ddarpariaeth y gwasanaethau arferol, ac wedi ymarfer yr ymateb lle bo'n ofynnol.*

S18.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S18.2 Datblygwyd Prif Gynllun Achosion ar gyfer Gogledd Cymru a chaiff ei adolygu'n flynyddol a'i gyflwyno i Fwrdd y BILI. At hynny, rhoddir adroddiad llawn i'r Bwrdd ynghylch unrhyw faterion yn ymwneud â'r Ddeddf Argyfyngau Sifil Posibl ym mis Medi bob blwyddyn. Penodwyd hyrwyddwr Parhad Busnes ar lefel y Bwrdd ar ddiwedd 2006.

S18.3 Cynhaliwyd sesiwn datblygu staff ym mis Mawrth 2007 a fynychwyd gan bob aelod o staff y BILI. At hynny, bu aelodau staff yn ymwneud ag ymarfer cenedlaethol (ffliw pandemig) Winter Willow. Caiff y risgiau penodol i'r BILI eu nodi a'u blaenoriaethu o fewn ei Gynllun Parhad Busnes.

S18.4 O gofio'r uchod cytunwn ag asesiad y BILI o'i hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol.

S18.5 Nid oedd ymatebion y BILI i gwestiynau am y Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr wedi eu datblygu'n dda ac nid oedd

llawer o wybodaeth ynddynt. Rydym yn asesu felly bod y BILL yn **Ymateb** ar y lefelau hyn.

## **Safon 19**

*Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau:*

- a. bod cyn lleied o beryglon â phosibl yn gysylltiedig â chaffael a defnyddio dyfeisiadau meddygol;*
- b. bod dyfeisiadau meddygol amdro'n cael eu diheintio'n briodol cyn eu defnyddio, a bod y peryglon sy'n gysylltiedig â'r cyfleusterau a'r prosesau diheintio yn cael eu rheoli'n effeithiol;*
- c. bod materion yn ymwneud ag ansawdd a diogelwch meddyginiaethau'n cael ei reoli;*
- d. bod y gwaith o atal, trin a thrafod, cludo a gwaredu gwastraff a'r gwaith o'i gadw ar wahân yn cael ei reoli fel bod cyn lleied â phosibl o beryglon i iechyd a diogelwch y staff, y cleifion a'r cyhoedd ac i'r amgylchedd.*

S19.1 Asesodd y BILL ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymateb** ar lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S19.2 O'r ymatebion a'r dystiolaeth ategol a gyflwynwyd gan y BILL ni allwn ond cytuno ar lefel aeddfedrwydd o **Ymateb** ar bob un o'r tair lefel. Canolbwyntiodd ymatebion ar ofal sylfaenol ac ni wnaed unrhyw gyfeiriadau at ofal eilaidd. Nid oes unrhyw systemau ar waith i olrhain cyfarpar nac i archwilio trefniadau rheoli gwastraff.

S19.3 Roedd Strategaeth Rheoli Meddyginiaethau'r BILL ar ffurf ddrafft ar ddyddiad cyflwyno eu hunanasesiad ac ni ddangosodd y prosesau a nodwyd gan y BILL mewn ymateb i'r cwestiwn ynghylch sicrhau gweithrediad effeithiol strategaethau, polisïau a gweithdrefnau cytûn ar gyfer rheoli meddyginiaethau ynghyd â chydymffurfio â gofynion deddfwriaethol fod systemau cadarn ar waith.

## **Safon 20**

*Mae cyrff gofal iechyd yn mynd ati i wella'r gofal ar gyfer cleifion a boddhad y staff yn barhaus, gan ddefnyddio arferion gorau wrth reoli adnoddau dynol.*

S20.1 Asesodd y BILL ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S20.2 Mae Adran Adnoddau Dynol Canolfan Gwasanaethau Busnes y GIG yn rhoi cyngor Proffesiynol. Mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo ystod o bolisiâu a gweithdrefnau AD sydd naill ai wedi eu datblygu'n lleol neu ar lefel Cymru gyfan yn ogystal â Strategaeth Sefydliadol, Hyfforddiant a Datblygu. Mae cynllun gweithredu ar waith i fynd i'r afael â materion AD sy'n deillio o arolygon Cymru ac arolygon staff lleol. Mae proses rheoli perfformiad ar waith a phennir amcanion unigol i staff sy'n seiliedig ar amcanion corfforaethol y BILI. Er ein bod o'r farn bod y BILI wedi dangos arweiniad strategol ac arfer da o ran rheoli AD drwy'r BILI, teimlwn nad oedd tystiolaeth o fonitro rheolaidd gan y Bwrdd (dim ond cyfeiriad at Adroddiadau Blynyddol a wneir) na gwelliant parhaus yn amlwg. At hynny, nid yw'n ymddangos bod arweinydd ar lefel y Bwrdd ar gyfer AD wedi ei nodi, er bod y Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth wedi cael mwy o adroddiadau rheolaidd yn ôl pob tebyg, rydym felly wedi asesu bod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol.

S20.3 Darparodd y BILI dair enghraifft o welliannau a wnaed i wasanaethau dros y 12 mis diwethaf ond dim ond dau o'r rhain oedd yn ymwneud â gwelliannau i wasanaethau a dim ond un a oedd wedi ei ysgogi yn amlwg gan aelod o'r staff. Er bod ystod o ddulliau yn cael eu defnyddio i annog staff i wella gwasanaethau credwn fod y BILI yn **Datblygu** ar nid yn Ymarfer ar lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

## **Safon 21**

*Mae cyrff gofal iechyd:*

- a. *yn cynnal yr holl gamau gwirio gofynnol cyn cyflogi ac yn sicrhau bod yr holl staff cymwys, boed yn gyflogedig neu ar gontract, yn cael eu cofrestru â'r cyrff perthnasol;*
- b. *yn gofyn i'r holl staff proffesiynol cyflogedig gadw at eu codau ymarfer ac ymddygiad proffesiynol;*
- c. *yn mynd i'r afael os bydd angen â grwpiau lleiafrifol a dangynrychiolir.*

S21.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S21.2 Rydym yn fodlon bod gan y BILI y gweithdrefnau lefel Gorfforaethol angenrheidiol ar waith i gefnogi sgôr aeddfedrwydd o **Ddatblygu**; yn eu plith mae:

- Polisi Recriwtio a Dethol.
- Pwyllgor AD a Chydnabyddiaeth.
- Ystod o Gynlluniau Cydraddoldeb.
- Proses wirio'r Swyddfa Cofnodion Troseddol.
- Gweithdrefnau gwirio cyn cyflogaeth.
- Proses arfarnu flynyddol ar gyfer meddygon teulu fel rhan o Gontract y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol.
- Cadw rhestr o feddygon teulu locwm, a gaiff ei gwirio yn erbyn rhestr Perfformwyr Cymru Gyfan a'i rhannu gyda practisau.
- Polisi Codi Pryderon.
- Dull Asesu Effaith Cydraddoldeb
- Polisi Chwythu'r Chwiban.
- Polisi Disgyblu.

S21.3 Caiff cofrestriad y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth ei wirio yn flynyddol a datblygwyd cronfa ddata gan y Gyfarwyddiaeth Nyrsio i sicrhau bod hyn yn digwydd. Mae'r BILI yn cynnal archwiliad bob chwe mis i sicrhau bod pob contractwr wedi ei gofrestru gyda'i gorff proffesiynol. Dyfarnwyd y symbol Tic Dwbl (Anabledd) i'r BILI gan y Ganolfan Byd Gwaith, sy'n nodi bod y BILI fel cyflogwr yn ymrwymedig i egwyddorion cydraddoldeb o ran anabledd. Dengys y dystiolaeth fod ystyriaeth debyg yn cael ei rhoi i grwpiau lleiafrifol.

S21.4 Ar lefel strategol ceir tystiolaeth o arfer da, fodd bynnag, mae rhai bylchau'n bodoli ac ni ddarparwyd cadarnhad digonol o lefel fonitro'r Bwrdd, felly asesir bod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Gorfforaethol. At hynny, ni chynhwyswyd digon o dystiolaeth o welliant parhaus a meincnodi. Felly rydym yn asesu bod y BILI yn **Datblygu** ar lefel Weithredol hefyd.

S21.5 Cafodd y systemau ar gyfer nodi a delio ag achosion o dor-ymddygiad proffesiynol eu nodi yn ymateb y BILI a darparodd dystiolaeth fod y systemau hyn wedi cael eu defnyddio'n llwyddiannus. Gwnaeth y staff y gwnaethom siarad â hwy gadarnhau iddynt gael hyfforddiant ar gydraddoldeb. Felly, cadarnhawn asesiad y BILI o'i hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

## Safon 22

*Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff:*

- a. yn cael eu recriwtio'n briodol, eu bod wedi cael hyfforddiant priodol a bod ganddynt y cymwysterau priodol ar gyfer y gwaith;*
- b. yn cymryd rhan mewn rhaglenni cynefino a rhaglenni hyfforddi gorfodol;*
- c. yn cymryd rhan mewn cynllun datblygu proffesiynol a galwedigaethol parhaus.*

S22.1 Asesodd y BILL ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S22.2 Er mwyn helpu i gyflawni'r Safon hon mae gan y BILL y systemau a'r gweithdrefnau canlynol ar waith:

- Mabwysiadu Polisi Recriwtio a Dethol Cymru Gyfan.
- Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac AD.
- Strategaeth Hyfforddi a Datblygu.
- Disgrifiadau Swydd a manylebau person.
- Adolygiad Cytûn o Berfformiad a Phroses Datblygu Personol.
- Adroddiadau data ar staffio i'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac AD.
- Hyfforddiant arfarnu.
- Mabwysiadu Gweithdrefn Ddisgyblu Cymru Gyfan.
- Proses gwneud cais am hyfforddiant amser astudio.
- Tafenni presenoldeb mewn hyfforddiant.
- Gwerthuso digwyddiadau hyfforddi.

S22.3 Mae'r BILL yn symud i'r *Fframwaith Gwybodaeth a Sgiliau* (FFSG) ac mae pob aelod o staff yn gweithio ar ei broffil FFSG. Mae cyflwyno'r Cofnod Staff Electronig yn ddiweddar wedi galluogi'r BILL i gadw gwybodaeth o ran hyfforddiant staff ar draws pob disgyblaeth ac mae'r Pwyllgor Cydnabyddiaeth ac AD yn adolygu adroddiadau monitro. Hysbysir y Prif Weithredwr o unrhyw achosion o beidio â bod yn bresennol mewn hyfforddiant gorfodol a/neu sefydlu a chymerir y camau gweithredu angenrheidiol.

S22.4 Ar y cyd â Choleg Glannau Dyfrdwy mae'r BILI wedi sefydlu Cynllun Datblygu Cyflogaeth sy'n caniatáu i staff gael hyfforddiant galwedigaethol hyd at derbyn o £180. Rhoddir amser astudio i staff os yw'r cwrs yn berthnasol i'w gwaith ac os nad ydyw yna gwnânt yr hyfforddiant yn eu hamser eu hunain. O ymatebion y BILI mae'n glir bod ymrwymiad i'r gwaith o hyfforddi a datblygu staff yn barhaus a dywedwyd wrthym yn y grŵp ffocws staff fod y staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth.

S22.5 Credwfn fod y BILI yn **Datblygu** ar y tair lefel ar gyfer y safon hon. Mae gwaith yn cael ei ddatblygu mewn perthynas â FFSG GIG a bydd cyflwyno'r Cofnod Staff Electronig yn helpu i gyflawni lefel aeddfedrwydd o Ymarfer.

### **Safon 23**

*Mae cyrff gofal iechyd yn sicrhau bod staff yn cael cymorth gan:*

- a. brosesau sy'n caniatáu iddynt fynegi pryderon ynghylch unrhyw agwedd ar y broses ddarparu, y triniaethau neu'r broses reoli, a hynny'n gyfrinachol a heb beryglu eu safle;*
- b. rhaglenni datblygu sefydliadol a rhaglenni datblygu personol sy'n cydnabod cyfraniad a gwerth y staff.*

S23.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Arwain** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S23.2 Mae gan y BILI *Bolisi Chwythu'r Chwiban*, sy'n caniatáu i staff godi pryderon am unrhyw agwedd ar y corff a'i weithgaredd. Gweithredwyd Polisi Codi Pryderon a llyfryn staff cysylltiedig hefyd. Anogir y staff i ddefnyddio'r polisiau hyn a chodir ymwybyddiaeth ohonynt drwy safle mewnwyd y BILI, yn y cyfnod sefydlu ac yn ystod ymweliadau clinigol â phractisau contractwyr.

S23.3 Cyfyngir y dystiolaeth a ddarperir i ddangos sut y caiff staff eu cefnogi a'u hannog i ddefnyddio'r gweithdrefnau hyn i gyfeiriad at y llyfryn staff Codi Pryderon. Noda'r BILI hefyd "*bod y llyfryn staff hefyd yn sicrhau y cedwir cyfrinachedd*", ond nid yw'r ymateb yn nodi sut y caiff hyn ei gyflawni.

S23.4 Mae'r Fforwm Staff yn gyfle i staff godi materion cyffredinol a rheolaidd o bryder am weithrediad y BILI ac mae pob Cyfarwyddiaeth yn cynnal cyfarfodydd tîm.

S23.5 Prin iawn oedd y dystiolaeth gan y BILI i ddangos sut yr oedd yn cydnabod cyfraniad y staff; a dim ond cyfeiriad at gyfarfodydd amrywiol a phrosesau adolygu a'r Rhaglen Datblygu Personol a wnaed.

S23.6 Ar sail yr ymatebion a ddarparwyd i'r gyfres o gwestiynau o dan y safon hon a safonau 20, 21 a 22 credwn fod y BILI yn **Datblygu** ar y tair lefel. Dangoswyd tystiolaeth gyfyngedig o welliant parhaus, meincnodi a monitro a gwerthuso ar lefel y Bwrdd mewn ymateb i'r cwestiynau a osodwyd ar gyfer y safon hon. Hefyd, ni ddarparwyd tystiolaeth i ddangos mai rhagorol yn gyffredinol oedd profiad yr unigolyn neu dystiolaeth y gellid rhannu arfer gorau felly ni ellid cyfiawnhau asesiad o Fwrdd yn Arwain ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

#### **Safon 24**

*Mae cyrff gofal iechyd yn cydweithio â phartneriaid gofal cymdeithasol ac eraill i fodloni anghenion iechyd eu poblogaeth drwy:*

- a. *fod â gweithlu sydd â'r gymysgedd briodol o sgiliau ac sy'n adlewyrchu'r gymuned yn gyffredinol;*
- b. *sicrhau bod y gwasanaethau'n gwella'n barhaus drwy ddatblygu ffyrdd gwell o weithio.*

S24.1 Asesodd y BILI ei hun fel bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S24.2 Mae gan y BILI nifer o drefniadau ar waith i gefnogi gweithio mewn partneriaeth:

- Bwrdd partneriaeth y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a'r strwythur cynllunio cysylltiedig.
- Grwpiau llywio a gweithredol Gofal Canolraddol Tîm Gweithredu Lleol Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Pobl Hŷn; Tîm prosiect Storfeydd ar y Cyd.
- Tîm gweithredu aml-asiantaeth Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol Plant.
- Tîm Ymyrryd mewn Argyfwng a Gweithwyr Cyffredinol.
- Grwpiau cynghori ar y cyd i weithredu datblygiadau'r gwasanaeth a chomisiynu ar gyfer arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol cronig.

S24.3 Mae enghreifftiau o fentrau ar y cyd yn cynnwys:

- Datblygu Llwybr Gofal ar gyfer Diabetes math 2.
- Rhwydweithiau gofal sylfaenol diabetes.
- Sgrinio traed mewn perthynas â diabetes ym maes podiatreg.
- Gwasanaeth casglu offer miniog.
- Llwybr gofal Clefyd Rhwystrol Cronig yr Ysgyfaint amlddisgyblaethol.
- Cynghrair Atal Cwmpadau Sir y Fflint.
- Prosiect Wellcheck.

S24.4 Rydym yn falch o gytuno ag asesiad y BILI ei fod yn Fwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefelau Corfforaethol a Chanlyniadau Gweithredol/Clinigol.

S24.5 Darparodd y BILI dystiolaeth o fentrau sydd wedi cael eu gwerthuso a dangoswyd gwelliant i brofiad y defnyddiwr a chytunwn ag asesiad y BILI o'i hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

## **Safon 25**

*Mae cyrff gofal iechyd yn defnyddio systemau gwybodaeth effeithiol a thechnoleg gwybodaeth integredig i gefnogi a gwella'r gofal ar gyfer cleifion, ac wrth gomisiynu a chynllunio gwasanaethau.*

S25.1 Asesodd y BILI ei hun fel bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol ac yn **Datblygu** ar lefelau Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S25.2 Roedd y BILI yn gallu dangos bod pwysigrwydd systemau Technoleg a Rheoli Gwybodaeth cadarn yn cael ei gydnabod gan y BILI. Cytunwyd ar Strategaeth Technoleg a Rheoli Gwybodaeth gan y Bwrdd ac mae ystod o bolisiâu a gymeradwywyd gan y Bwrdd ar waith. Mae Gweithgor Technoleg a Rheoli Gwybodaeth y BILI yn gyfrifol am weithredu a monitro materion Rheoli Gwybodaeth a Thechnoleg. Darperir gwasanaethau Technoleg a Rheoli Gwybodaeth gan y Ganolfan Gwasanaeth i Fusnesau drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth, a gaiff ei fonitro drwy adroddiadau chwarterol o ddangosyddion perfformiad allweddol.

S25.3 Mewn ymateb i'r cwestiwn lefel Weithredol, roedd y BILI wedi gallu darparu nifer o enghreifftiau i ddangos sut y caiff staff eu hyfforddi a'u gwneud yn ymwybodol o'r systemau gwybodaeth gwahanol sydd ar waith. Roedd hyn yn cynnwys staff gofal sylfaenol yn ogystal â staff y BILI ei hun. Nodwyd gennym hefyd bod y BILI yn dibynnu ar y Ganolfan Gwasanaeth i Fusnesau a chyrff Darparwyr i sicrhau cywirdeb y data. Dylai'r BILI ystyried mynd i'r afael â'r prosesau yn y meysydd hyn a'u cryfhau.

S25.4 Ni ddangosodd ymateb y BILI i'r gyfres o gwestiynau mewn gwirionedd sut y mae'r Bwrdd yn monitro ac yn gwerthuso effeithiolrwydd systemau Technoleg a Rheoli Gwybodaeth y BILI, yn arbennig o ran integreiddio na sut y caiff ei sicrhau bod y wybodaeth a gesglir yn cael ei defnyddio i ddylanwadu ar wasanaethau. Felly credwn fod y BILI yn **Datblygu** ar dair lefel y safon hon.

## **Safon 26**

*Mae gan gyrff gofal iechyd brosesau rheoli cofnodion effeithiol yn eu lle i sicrhau:*

- a. bod y corff, o'r foment y caiff cofnod ei greu nes iddo gael ei ddileu, yn diweddar'u wybodaeth i ateb y diben gwreiddiol, ac yn dileu'r wybodaeth yn briodol pan na fo'i hangen mwyach arnynt;*
- b. bod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n gyfrinachol.*

S26.1 Asesodd y BILI ei hun fel bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S26.2 Mabwysiadodd y BILI bolisi corfforaethol ar Reoli Cofnodion ym mis Ionawr 2007. Mae'r Polisi yn cynnwys amserlen waredu sy'n unol â chanllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan yr Adran Iechyd.

S26.3 Rhoddwyd Canllawiau Arfer da i'r staff ac arweiniad ar reoli cofnodion. Cynhelir gwaith monitro drwy Ddangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) ddwywaith y flwyddyn ac mae Cyfarwyddiaethau yn cynnal diwrnodau rheoli cofnodion ddwywaith y flwyddyn. Darparwyd hyfforddiant a chyflwyniadau ar y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, y Ddeddf Diogelu Data ac ymgyfreitha cysylltiedig. Mae'r BILI hefyd wedi cefnogi gofal sylfaenol gydag arferion rheoli cofnodion da. Cynhaliwyd archwiliadau rheoli cofnodion ledled Gogledd Cymru.

S26.4 Cadarnhaodd staff y BILI eu bod wedi cael hyfforddiant ar reoli cofnodion ac wedi cael y Canllaw Arfer Da a'r canllawiau.

S26.5 Cytunwn ag asesiad y BILI o'i hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar y tair lefel.

## **Safon 27**

*Mae trefniadau llywodraethu ar sail arferion da yn eu lle sydd:*

- a. yn cymhwyso egwyddorion llywodraethu corfforaethol a chlinigol cadarn;*
- b. yn sicrhau proses gadarn ar gyfer rheolaeth ariannol, ac atebolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau;*
- c. yn mynd ati i helpu'r holl staff i hybu gonestrwydd, uniondeb, atebolrwydd a'r egwyddor o fod yn agored ac i ddefnyddio adnoddau'n ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol.*
- d. yn mynd ati'n systematig i gynnal asesiadau risg a rheoli risg;*
- e. yn cael eu hintegreiddio ar draws yr holl gymunedau iechyd a rhwydweithiau clinigol.*

S27.1 Asesodd y BILI ei hun fel bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S27.2 Mae Bwrdd y BILI yn cydnabod ei rôl mewn perthynas â threfniadau llywodraethu cadarn ac mae strwythur o is-bwyllgorau sy'n uniongyrchol atebol i'r Bwrdd wedi cael ei roi ar waith a chaiff yr is-bwyllgorau hyn eu hadolygu'n rheolaidd gan Gadeiryddion y Bwrdd a'r is-bwyllgorau, ac maent yn cynnwys Pwyllgor Archwilio a Phwyllgor Llywodraethu.

S27.3 Disodlodd y Pwyllgor Llywodraethu'r Pwyllgorau Llywodraethu Clinigol, Rheoli Risg a Chwynion ym mis Ebrill eleni ac mae'n gam allweddol tuag at integreiddio'r agenda llywodraethu yn llawn.

S27.4 Mae Archebion Sefydlog a chyfarwyddiadau Ariannol Sefydlog ar waith ac mae *Fframwaith Gweithredol Blynyddol* wedi cael ei ddatblygu a'r Bwrdd wedi cytuno arno. Cyflwynir Cynllun Ariannol drafft a therfynol gan y Cyfarwyddwr Cyllid i Fwrdd y BILI ym mis Mawrth/mis Ebrill bob blwyddyn. Cyflwynir adroddiadau ariannol i'r Bwrdd yn rheolaidd.

S27.5 Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Risg ym mis Mawrth 2007 a chyflwynir cofnodion y Pwyllgor Llywodraethu i'r bwrdd [cyfrifoldeb y Pwyllgor Risg fyddai hyn wedi bod yn flaenorol]. Mae'n ofynnol i Gyfarwyddwyr y BILL ddangos eu bod yn cymryd y camau angenrheidiol ar gyfer unrhyw risgiau canolog ac uchel sydd o fewn eu maes cyfrifoldeb hwy a mynychu'r Pwyllgor Llywodraethu. Mae cynllun gweithredu yn ofynnol ar gyfer risgiau uchel ac fe'i cyflwynir i'r Bwrdd.

S27.6 Caiff staff eu hysbysu o drefniadau adroddiadau llywodraethu pan gânt eu sefydlu ac mewn rhaglenni hyfforddiant amrywiol eraill a Briffiadau Staff misol. Caiff staff eu briffio ar drefniadau rheoli ariannol ond nid yw'n glir sut y maent yn cyfrannu oni bai eu bod yn ddeiliaid cyllidebau. Mae llywodraethu integredig yn cael ei ddatblygu gan y BILL ond nid oedd yn glir a oedd yn hyn yn cael ei ddatblygu ar draws y rhwydweithiau cymuned iechyd a chlinigol. Darparwyd enghreifftiau o gyd-lywodraethu yn hytrach na threfniadau llywodraethu integredig.

S27.7 Disgrifiwyd materion allweddol a amlygwyd yn y 12 mis diwethaf gan drefniadau llywodraethu ynghyd â'r camau a gymerwyd. Darparwyd enghraifft o'r modd y mae profiad y defnyddiwr yn dylanwadu ar reolaeth ariannol ac o'r modd y mae staff wedi cyflwyno materion â'u blaenoriaethu drwy ei drefniadau llywodraethu yn y 12 mis diwethaf. Defnyddir Cyfarfodydd Briffio Staff i godi ymwybyddiaeth o faterion rheoli risg ac mae'r Gofrestr Risg ar gael i staff bob chwarter gyda manylion am risgiau, newidiadau, rheolaethau a chymau gweithredu a nodwyd.

S27.8 Prin yw'r sôn am gynnwys y cyhoedd a'r cleifion yn yr ymatebion i'r safon hon ac yn amlwg mae hyn yn wendid o ran asesu lefel y BILL, ac roedd yr enghraifft a ddarparwyd o'r modd y mae profiad defnyddiwr y gwasanaeth wedi gwella o ganlyniad i drefniadau llywodraethu integredig yn wan. At hynny, ni ddarparodd y BILL lawer o fanylion mewn perthynas â'r broses lle y caiff *'staff eu sicrhau bod y risgiau a nodwyd ganddynt yn cael eu blaenoriaethu a'u gweithredu'n briodol'*.

S27.9 Rydym yn cadarnhau asesiad y BILL o'i hun fel Bwrdd sy'n **Ymarfer** ar lefel Gorfforaethol a lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ond credwn mai dim ond **Datblygu** y mae ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

## Safon 28

*Mae cyrff gofal iechyd:*

- a. *yn sicrhau bod gwaith pob tîm a phob gwasanaeth clinigol yn dilyn egwyddorion llywodraethu clinigol;*
- b. *yn gweithredu proses barhaus ar gyfer gwella ansawdd, gan gynnwys archwiliadau clinigol;*
- c. *yn sicrhau arweiniad ac atebolrwydd effeithiol gan y staff clinigol a'r rheolwyr.*

S28.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Arwain** ar lefel Gorfforaethol, yn **Ymarfer** ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol ac yn **Datblygu** ar lefel Profiad y Defnyddiwr.

S28.2 Adolygwyd *Strategaeth Llywodraethu Clinigol* y BILI ym mis Chwefror 2007. Fe'i cefnogir gan nifer o strategaethau, polisiau a gweithdrefnau eraill, gan gynnwys:

- Strategaeth Archwilio.
- Strategaeth Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd
- Polisi ar gyfer gweithredu Canllawiau NICE
- Triniaethau ag Effeithiolrwydd Cyfyngedig
- Cynllun Datblygu Llywodraethu Clinigol Treigl Tair Blynedd

S28.3 Disgrifiodd y BILI nifer o drefniadau monitro sydd ar waith i sicrhau bod gofynion Llywodraethu Clinigol yn cael eu bodloni ond ni ddisgrifiodd sut y buont yn rhan o'r gwaith o ddatblygu systemau llywodraethu clinigol. Disgrifiwyd trefniadau ar gyfer sicrhau bod staff yn ymwneud â llywodraethu clinigol a nodwyd sawl enghraifft yn ymateb y BILI o'r modd y mae staff yn y BILI ac ym maes gofal sylfaenol yn defnyddio egwyddorion llywodraethu clinigol i gynnal a gwella gofal i gleifion.

S28.4 Credwn fod y BILI yn **Ymarfer** ar lefelau Corfforaethol a Phrofiad y Defnyddiwr. Fodd bynnag, credwn mai dim ond yn **Datblygu** y mae ar lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol.



## 4.4 Iechyd y Cyhoedd

### Safon 29

*Mae cyrff gofal iechyd yn hybu, amddiffyn a gwella iechyd y gymuned sy'n cael ei gwasanaethu ac yn lleihau anghydraddoldebau iechyd:*

- a. drwy gydweithio a gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i ddatblygu, gweithredu a gwerthuso strategaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles;*
- b. drwy sicrhau bod eu polisiau a'u harferion yn seiliedig ar asesiadau o angen a chyngor cadarn ar iechyd y cyhoedd.*

S29.1 Asesodd y BILI ei hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S29.2 Mae Bwrdd Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles yn goruchwyllo'r broses o ddatblygu, gweithredu a gwerthuso'r *Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles*. Sefydlwyd grŵp cydlynu i ddatblygu a gweithredu cynllun prosiect ar gyfer y strategaeth newydd ac mae'r Asesiad Angen a'r is-grwpiau Ymgysylltu ac Ymgynghori â'r Cyhoedd yn cefnogi hyn.

S29.3 Mae ystod o grwpiau cynllunio strategol aml-asiantaeth yn canolbwyntio ar ddatblygiad manwl a'r gwaith o ddarparu gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a lles i grwpiau penodol o'r boblogaeth. Mae Cynllun Gweithredu Lleol Wanless Sir y Fflint wedi gwasanaethu fel dull cyflawni allweddol i nodi'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a goruchwylir y gwaith o ddatblygu'r holl brosiectau a gwasanaethau a ariennir gan Grŵp Comisiynu a Gweithredu Wanless. Caiff yr asesiad ei ddiweddarau ac mae Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd yn lleol yn arwain y gwaith hwn. Ymhlith y blaenoriaethau partneriaeth leol allweddol mae:

- *Achosion allweddol o salwch* – ffordd o fyw, clefyd y galon, anafiadau, canser, diabetes, clefyd anadlol
- *Grwpiau allweddol o'r boblogaeth* - gofalwyr, iechyd meddwl, pobl hŷn; pobl ag anabledau; plant a phobl ifanc, camddefnyddio sylweddau.
- *Materion Trawsbynciol* – anghydraddoldebau iechyd, mynediad at wasanaethau, recriwtio a chadw, cynnwys y cyhoedd.

Blaenoriaethau allweddol cynllun gweithredu lleol Wanless yw:

- Atal.
- Oedi wrth Drosglwyddo Gofal.
- Ailgynllunio.
- Atgyfeiriadau o Ofal Sylfaenol.

S29.4 Cynhelir adolygiad blynyddol o'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a gwerthusiad o gynlluniau Wanless a rhennir hyn gyda Grŵp Cynllunio a Chomisiynu Wanless a Bwrdd y BILI. Gwelwyd tystiolaeth o gynnydd yn erbyn blaenoriaethau allweddol yn ogystal â meysydd lle mae angen gwneud mwy o waith.

S29.5 Dangosodd y BILI fod GICC yn darparu'r cymorth angenrheidiol i weithredu ei swyddogaethau statudol. Darperir briffiadau rheolaidd i'r Bwrdd gan Gyfarwyddwr Cyswllt Iechyd y Cyhoedd a dangosodd y BILI sut y mae canllawiau a data gan GICC wedi dylanwadu ar benderfyniadau comisiynu, megis canllawiau ar weithdrefnau ag effeithiolrwydd clinigol cyfyngedig.

S29.6 Mae'r BILI wedi darparu tystiolaeth gadarn i nodi sut y mae'r cleifion a'r cyhoedd wedi bod yn gysylltiedig â'r broses Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles drwy ymgynghori a thrwy roi adborth. Fodd bynnag, mae'r BILI yn cydnabod nad yw ar y cam lle y mae cleifion a'r cyhoedd yn dylanwadu'n wirioneddol ar weithredu'r strategaeth. Ni nodwyd manteision penodol i gleifion o ganlyniad uniongyrchol i'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles a manylwyd ar ganlyniadau mesuradwy.

S29.7 Rydym yn cytuno ag asesiad y BILI o'i hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

### Safon 30

*Mae cyrff gofal iechyd:*

- a. yn rheoli rhaglenni systematig ar gyfer atal clefydon a hybu iechyd sy'n cynnwys staff, ac sy'n bodloni gofynion y Fframweithiau Gwasanaeth Cenedlaethol, y cynlluniau cenedlaethol a'r blaenoriaethau o ran hybu iechyd ac atal clefydon;*
- b. yn ystyried yr holl bolisiâu cyfredol ac arfaethedig a'r wybodaeth am faterion iechyd y cyhoedd wrth ddatblygu rhaglenni iechyd y cyhoedd, rhaglenni hybu iechyd a gwasanaethau atal, ac wrth gomisiynu a darparu gwasanaethau.*

S30.1 Asesodd y BILL ei hun fel Bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S30.2 Darparodd y BILL sawl enghraifft o gynlluniau hybu iechyd ac atal clefydau sydd ar waith yn ardal Sir y Fflint, yn cynnwys:

- Cymorth i Roi'r Gorau i Ysmygu.
- Cymorth i reoli clefydau cronig.
- Gwasanaeth adsefydlu cardiaidd.
- Calon Sir y Fflint.
- Ymgyrchoedd Fferyllfeydd.
- Gofal Piau Hi y Gaeaf Hwn.
- Atal cwmpiadau/pobl hŷn.
- Atal anafiadau plant.
- WellCheck.
- Ifanc, Rhydd a Ffit.
- Prosiect Iechyd Rhywiol Pobl Ifanc.
- Cynllun Cerdyn "C.
- Cynghrair Di-fwg Sir y Fflint.
- Brechiadau.
- Cymorth i fwydo ar y fron.
- Hybu Iechyd Meddwl.

S30.3 Mewn perthynas â chwestiynau yn ymwneud â '*sut mae cleifion a'r cyhoedd yn dylanwadu ar raglenni atal clefydau a reolir a rhaglenni hybu iechyd*' roedd y

ffocws yn gul iawn gan gyfeirio at sut y gall unigolion sy'n gysylltiedig â rhaglenni atal clefydau a reolir ddylanwadu ar y rhaglen y maent yn rhan ohoni.

S30.4 Mae'n amlwg bod llawer o waith yn cael ei wneud i sicrhau y bodlonir y safon hon ac mae'r BILI yn symud tuag at lefel aeddfedrwydd o Ymarfer. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni hyn byddai'n rhaid dangos bod y Bwrdd yn gwneud gwaith monitro yn rheolaidd gan ddarparu tystiolaeth o welliant parhaus. Ni wnaeth eu hymateb fodloni'r gofyniad hwn. **Cytunwn felly ag asesiad y BILI o'i hun fel Bwrdd sy'n Datblygu** ar lefel Gorfforaethol.

### **Safon 31**

*Mae cyrff gofal iechyd:*

- a. *yn rhoi cynlluniau ar waith i ddarparu adnoddau ar gyfer amddiffyn y cyhoedd os bydd achosion sylweddol o glefyd heintus yn digwydd neu argyfwng iechyd arall;*
- b. *yn nodi ac yn mynd i'r afael â phroblemau difrifol ym maes iechyd y cyhoedd ac anghydraddoldebau iechyd, gyda'r Byrddau Iechyd Lleol yn arwain;*
- c. *yn gweithredu rhaglenni effeithiol i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau iechyd; ac yn amddiffyn eu poblogaethau rhag peryglon a nodwyd eisoes a pheryglon newydd;*
- d. *yn annog ac yn helpu unigolion i gydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i edrych ar ôl eu hiechyd a'u lles eu hunain.*

S31.1 Gweler yr ymateb i Safon 18.

### **Safon 32**

*Mae cyrff gofal iechyd yn cyflawni'r Safon Iechyd Gorfforaethol, sef y nod ansawdd cenedlaethol ar gyfer iechyd yn y gweithle, ac yn symud i lefel uwch ar ôl cael ailasesiad.*

S32.1 Asesodd y BILI ei hun fel bwrdd sy'n **Datblygu** ar lefelau Corfforaethol, Canlyniadau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

S32.2 Dyfarnwyd Safon Iechyd Gorfforaethol Arian i'r BILI ym mis Ebrill 2005 ac mae'n gweithio tuag at gyflawni'r Safon Aur erbyn Ebrill 2008. Mae'r BILI wedi darparu tystiolaeth bod y canlynol ar waith:

- Adroddiad a chynllun gweithredu asesiad ergonomaid.
- Deunydd hybu iechyd.
- Gwerthusiadau gweithfannau.
- Arweinwyr cerdded sy'n trefnu teithiau cerdded o amgylch yr Wyddgrug.
- Fforwm staff.

S32.3 Penderfynwyd yng nghyfarfodydd Gwirio Cysondeb AGIC y byddai'r sgôr ar gyfer y safon hon yn adlewyrchu'r dyfarniadau y mae'r cyrff yn eu cael am y Safon Iechyd Gorfforaethol yn uniongyrchol. Byddai aur ac arian yn gyfwerth ag Ymarfer ac Efydd yn gyfwerth â Datblygu. Gan fod y BILI wedi ennill y dyfarniad Safon Iechyd Gorfforaethol Arian rydym wedi asesu bod y BILI yn **Ymarfer** ar lefelau Corfforaethol, Canlynaidau Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr.

Yn Atodiad 2, ceir crynodeb o'r lefelau aeddfedrwydd ar gyfer pob un o'r 32 o safonau fel y'u haseswyd gan BILI Sir y Fflint drwy ei hunanasesiad a thrwy AGIC yn dilyn profion a gwerthusiadau.



## **5. Y Camau Nesaf**

5.1. Mae'n ofynnol i BILL Sir y Fflint gyhoeddi Cynllun Gwella Safonau Gofal Iechyd erbyn 30 Tachwedd 2007. Bydd Swyddfa Ranbarthol Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cytuno ar y cynllun hwn, ac yn monitro ei weithrediad fel rhan o'r trefniadau rheoli perfformiad sydd ar waith ar gyfer GIG Cymru. Bydd ar gael ar wefan y BILL.

5.2. Dros y misoedd i ddod bydd AGIC yn gweithio gyda rhanddeiliaid i fireinio a gwella'r dull asesu ar gyfer y dyfodol ac i alinio proses hunanasesu y Safonau Gofal Iechyd â'r cylch ariannol blynyddol.

5.3. Caiff adroddiad Cymru gyfan ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2007 a bydd hwn yn integreiddio'r canfyddiadau o'r adroddiadau unigol â throsolwg o'r sefyllfa ledled Cymru. Bydd hwn yn amlygu'r themâu allweddol a'r meysydd risg a amlygwyd gan asesiad y Safonau Gofal Iechyd.



## Diffiniadau Lefel Aeddfedrwydd

	<b>Ymwybodol</b>	<b>Ymateb</b>	<b>Datblygu</b>	<b>Ymarfer</b>	<b>Arwain</b>
<b>Corfforaethol</b>	Mae'r Bwrdd yn ymwybodol o'r materion y mae angen ymdrin â hwy ond nid yw'n gallu dangos penderfyniadau/camau gweithredu i fynd i'r afael â hwy.	Mae'r Bwrdd yn cydnabod y materion allweddol ac mae wedi nodi opsiynau a flaenoriaethir, er nad oes unrhyw dystiolaeth o gyfeiriad strategol.	Mae'r Bwrdd yn cymryd camau i fynd i'r afael â'r materion allweddol drwy ddatblygu cynlluniau strategol gyda thystiolaeth o arfer da drwy'r corff.	Mae'r agenda strategol yn cael ei ddatblygu a'i fonitro gan y Bwrdd gyda thystiolaeth sylweddol o welliant parhaus drwy'r corff.	Mae'r Bwrdd yn arwain yr agenda strategol drwy weithredu arfer arloesol a rennir drwy'r corff a thu hwnt iddo i eraill, gan wireddu cynaliadwyedd hirdymor.
<b>Gweithredol</b>	Ceir ymwybyddiaeth o'r materion y mae angen ymdrin â hwy, ond ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau i fynd i'r afael â hwy.	Ceir cydnabyddiaeth o'r materion y mae angen ymdrin â hwy, ac mae ystod o opsiynau a nodwyd i fynd i'r afael â hwy.	Mae camau'n cael eu cymryd i ymdrin â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o'u defnyddio'n ymarferol drwy'r corff.	Mae cynlluniau datblygedig yn cael eu gweithredu drwy'r corff sy'n ymdrin â'r materion allweddol gyda thystiolaeth o werthuso a meincnodi yn arwain at welliant parhaus.	Ceir tystiolaeth o arfer arloesol, a gaiff ei rannu drwy'r corff a thu hwnt i eraill. Maent yn datblygu eu dulliau ymhellach i sicrhau gwelliant cynaliadwy hirdymor.
<b>Profiad y Defnyddiwr</b>	Mae profiad yr unigolyn/unigolion ar y cyfan yn wael ac ni ddatblygwyd unrhyw ddulliau o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hwy.	Nid yw profiad yr unigolyn/unigolion ar y cyfan yn dda er bod dulliau wedi eu datblygu o fewn y gwasanaeth i fynd i'r afael â hwy.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion yn gwella mewn sawl maes, er nad yw hyn yn gyson eto drwy'r corff.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion ar y cyfan yn dda ym mhob maes.	Mae profiad yr unigolyn/unigolion ar y cyfan yn rhagorol a gall y gwasanaeth ddangos tystiolaeth glir o arfer da, y gellir ei rannu.



## Crynodeb o Lefelau Aeddfedrwydd fesul Safon

## Allwedd

A	Arwain
Yr	Ymarfer
D	Datblygu
Yb	Ymateb
YI	Ymwybodol

## Safon 1

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↔	Yr
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	Yr	↓	D

## Safon 2

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

## Safon 3

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↔	Yr
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yr	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Yr	↓	Yb

## Safon 4

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yr	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Yr	↓	D

### Safon 5

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 6

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↔	Yr
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↑	Yr
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 7

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 8

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yr	↓	R
Profiad y Defnyddiwr	Yr	↓	Yb

### Safon 9

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	YI	↔	YI
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	YI	↑	Yb
Profiad y Defnyddiwr	YI	↔	YI

### Safon 10

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yr	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 11

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yb

### Safon 12

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yb
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 13

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yb
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yb

### Safon 14

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yb
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yb

### Safon 15

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	Yb
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yr	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Yr	↓	D

### Safon 16

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yb

### Safon 17

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↓	Yb
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 18

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yb
Profiad y Defnyddiwr	D	↓	Yb

### Safon 19

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yb	↔	Yb
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↓	Yb
Profiad y Defnyddiwr	Yr	↓	Yb

### Safon 20

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yr	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Yr	↓	D

### Safon 21

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yr	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Yr	↔	Yr

### Safon 22

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yr	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	Yr	↓	D

### Safon 23

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yr	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	A	↓	D

### Safon 24

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↔	Yr
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yr	↔	Yr
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 25

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↓	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 26

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 27

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Yr	↔	Yr
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yr	↔	Yr
Profiad y Defnyddiwr	Yr	↓	D

### Safon 28

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	A	↓	Yr
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Yr	↓	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	Yr

### Safon 29

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 30

	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↔	D
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↔	D
Profiad y Defnyddiwr	D	↔	D

### Safon 31



	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	Dd/G		
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	Dd/G		
Profiad y Defnyddiwr	Dd/G		

### Safon 32


	Sgôr hunanasesu	Amrywiad (i fyny/i lawr)	Asesiad AGIC
Corfforaethol	D	↑	Yr
Canlyniadau Gweithredol/Clinigol	D	↑	Yr
Profiad y Defnyddiwr	D	↑	Yr




**Crynodeb o Aeddfedrwydd yn ôl Lefelau Canlyniadau Corfforaethol, Gweithredol/Clinigol a Phrofiad y Defnyddiwr**




**Sgoriau Aeddfedrwydd Lefel Canlyniadau Gweithredol/Clinigol**



**Sgoriau Aeddfedrwydd Lefel Profiad y Defnyddiwr**



**Cytuno/Anghytuno â sgôr y BILI**



### Rhestr Termau

**Mae Grŵp Strategaeth Meddyginiaethau Cymru Gyfan** yn darparu cyngor i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar reoli meddyginiaethau'n strategol a rhagnodi.

**cerdyn sgorio cytbwys** - system reoli sy'n darparu model y gall corff egluro ei weledigaeth a'i strategaeth o'i fewn a'u gwireddu. Mae'n cefnogi gwelliant parhaus mewn perfformiad sefydliadol.

**Caldicott Guardian** - uwch glinigydd ym mhob corff y GIG sy'n gyfrifol am weithredu agweddau ar adroddid Caldicott, a adolygodd y gwaith o ddiogelu a defnyddio gwybodaeth am gleifion.

**llwybr gofal** - cyfres benodol o gamau triniaeth a gofal a gynlluniwyd i ddiwallu anghenion penodol pob claf.

**archwiliad clinigol** - gweithwyr iechyd proffesiynol yn gwerthuso ac yn mesur i ba raddau y maent yn cyflawni'r safonau a bennwyd ar gyfer eu gwasanaeth.

**llywodraethu clinigol** - fframwaith lle y gall cyrff y GIG fod yn atebol am wella ansawdd eu gwasanaethau a diogelu safonau uchel o ofal yn barhaus.

**rhwydweithiau clinigol** - grŵp o wasanaethau sy'n gweithio gyda'i gilydd ar draws ffiniau sefydliadol i ddarparu gwell gofal i gleifion.

**canlyniad clinigol** - effaith triniaeth ar iechyd neu les unigolyn.

**Cyngor Iechyd Cymuned** - cyrff hybu iechyd, eiriolaeth a pholisi dielw, yn seiliedig yn y gymuned. Sefydlwyd Cyngorau Iechyd Cymuned yn 1992 a'u nod oedd cryfhau cyfranogiad cymunedol wrth ddiffinio polisi'r wladwriaeth a pholisi lleol sy'n effeithio ar fynediad at wasanaethau gofal iechyd ac ansawdd y gofal iechyd hwnnw. Mae cyngorau iechyd cymuned yn cynrychioli budd y cyhoedd yn y GIG ac mae ganddynt hawl statudol i drafod newidiadau ym maes iechyd yn eu hardal hwy.

**Y Swyddfa Cofnodion Troseddol** - asiantaeth weithredol a sefydlwyd i helpu cyrff i wneud penderfyniadau recriwtio mwy diogel drwy alluogi mwy o bobl i weld gwybodaeth am gofnodion troseddol. Mae'r Swyddfa Cofnodion Troseddol yn helpu cyflogwr yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol i nodi ymgeiswyr a all fod yn anaddas am fathau penodol o waith, yn enwedig gwaith sy'n cynnwys dod i gysylltiad â phlant neu aelodau eraill o gymdeithas sy'n agored i niwed.

**diogelu data** - gofyniad ar gyrff cyhoeddus ac eraill i weithredu'n gyfrifol wrth reoli data personol. Cwmpesir cyfrifoldebau o'r fath gan Ddeddf Diogelu Data 1984 a Deddf Camddefnyddio Cyfrifiaduron 1990, a gynlluniwyd i ddiogelu data a ddelir ar unigolion.

**Cynllun Oes** - yn nodi gweledigaeth ar gyfer dyfodol gwasanaethau iechyd yng Nghymru ac mae ganddo strategaeth 10 mlynedd ar waith i gyflawni hyn. Mae'r

strategaeth yn cynnwys tri fframwaith strategol, a phob un yn para tua thair blynedd. Yn eu plith mae: Fframwaith 1 (2005-2008) Ailgynllunio Gofal Iechyd; Fframwaith 2 (2008-2011) Cyflawni Safonau Uwch; Fframwaith 3 (2011-2014) Gwasanaethau o'r Radd Flaenaf.

**Safonau Gofal Iechyd** - fframwaith cyffredin o safonau gofal iechyd a gyhoeddwyd ym mis Mai 2005 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi'r GIG a chyrff partner i ddarparu gwasanaethau effeithiol, amserol o safon ym mhob lleoliad gofal iechyd.

**rheoli heintiau** - cyfres o weithdrefnau i atal heintiau rhag lledaenu, a fydd yn cynnwys, er enghraifft, golchi dwylo, defnyddio offer sterilaidd ac ati.

**Byrddau Iechyd Lleol (BILiau)** - cyrff statudol sy'n gyfrifol am weithredu strategaethau i wella iechyd y boblogaeth leol, gan sicrhau a darparu gwasanaethau gofal iechyd sylfaenol a chymunedol a sicrhau gwasanaethau gofal eilaidd.

**Ymddiriedolaethau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG)** - cyrff hunanlywodraethol yn y GIG, sy'n darparu gwasanaethau gofal iechyd. Mae ymddiriedolaethau yn cyflogi ystod lawn o weithwyr iechyd proffesiynol gan gynnwys meddygon, nyrsys, deietegwyr, ffisiotherapyddion ac ati. Mae ymddiriedolaethau aciwt yn darparu gwasanaethau meddygol a llawdriniaethol fel arfer mewn ysbytai. Mae ymddiriedolaethau cymunedol yn darparu gwasanaethau iechyd lleol, fel arfer yn y gymuned, e.e. nyrsys ardal, trinwyr traed ac ati. Mae ymddiriedolaethau cyfunol yn darparu gwasanaethau ymddiriedolaeth cymunedol ac aciwt o dan un strwythur rheoli.

**Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE)** - awdurdod iechyd arbennig sy'n cynhyrchu canllawiau i'r GIG ac i gleifion ar feddyginiaethau, cyfarpar meddygol a gweithdrefnau clinigol.

**Asiantaeth Genedlaethol Diogelwch Cleifion (NPSA)** - awdurdod iechyd arbennig a grëwyd ym mis Gorffennaf 2001 i gydlynu ymdrechion y wlad gyfan i roi gwybod am gamgymeriadau a phroblemau sy'n effeithio ar ddiogelwch cleifion ac yn bwysicach na hynny, dysgu ohonynt.

**Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol Cymru (GICC)** - yn darparu ystod lawn o wasanaethau iechyd y cyhoedd sy'n ceisio: gwella iechyd a lles pobl Cymru a lleihau anghydraddoldebau mewn iechyd; diogelu rhag clefydaun sy'n bodoli eisoes, rhai newydd a rhai sy'n datblygu a bygythiadau iechyd; cyfrannu at wella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (FFGC)** - canllawiau i'r gwasanaeth iechyd ar sut i reoli a thrin mathau penodol o glefydau a salwch.

**Cynnwys y Cleifion a'r Cyhoedd** - strategaeth a gynlluniwyd i sicrhau y caiff safbwyntiau a barn cleifion, defnyddwyr y gwasanaeth, gofawyr a'r cyhoedd eu hystyried wrth gynllunio a darparu gwasanaethau.

**Rhaglen Arweinyddiaeth Glinigol Coleg Brenhinol y Nyrsys** - rhaglen sy'n caniatáu amser a ddiogelir i nyrsys arsylwi ar ofal a'r gwasanaethau a ddarperir, a

chyfweld â chleifion ynghylch y gofal a ddarperir. Wedi ei chynllunio i alluogi nyrsys i ddatblygu a mireinio eu galluoedd arwain, gwella sgiliau tîm a sgiliau trefniannol a chanolbwyntio ar anghenion cleifion.

**Datganiadau o Reolaeth Fewnol** - datganiad ar drefniadau cyffredinol cyrff y GIG ar gyfer cael sicrwydd ynghylch rheoli'r prif risgiau o fewn corff yn effeithiol.

**Bwrdd yr Ymddiriedolaeth** - grŵp o bobl sy'n gyfrifol yn ôl statud am y prif benderfyniadau strategaeth a pholisi ym mhob un o Ymddiriedolaethau'r GIG. Fel arfer yn cynnwys cadeirydd lleyg, pum aelod lleyg, Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth a Chyfarwyddwyr Gweithredol.

**Cronfa Risg Cymru** - cynllun hunan-sicrhau cydfuddiannol i bob corff iechyd yng Nghymru. Mae hefyd yn cefnogi diogelwch cleifion a staff drwy annog a chefnogi perfformiad ac asesiad da o ran rheoli risg drwy fesur yn erbyn safonau penodedig.